"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1878. [RHIF 69.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Arweiniad i'r Testament Newydd	193
Llyfr	198
A ydyw'r Athrawiaeth o Boenau Tragywyddol yn gysson a chymmeriad Duw fel Tad	199
Ystorm	205
Sut y dylai dynion dreulio eu hamser	206
Rhesymau dros i blant ufyddhau i'w Rhieni	207
Adolygiad	209
Y Cyfarfod Chwarterol	210
Hanesion	213
Gohebiaeth.—Marwgofion	214

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1878. [RHIF. 69.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

ARWEINIAD I'R TESTAMENT NEWYDD,

GAN Y PARCH. H. S. SOLLY, M.A., PADIHAM.

(Parhad o Rifyn Hydref, tud. 177.*)*

XVI.

MAE yr ysgrifeniadau ydym wedi ystyried yn ein dwyn i lawr hyd at ddiwedd y ganrif gyntaf. Yn ystod yr holl amser hyn yr oedd Cristionogaeth yn ymledu gyda chyflymder rhyfeddol. Mewn llawer parth yr oedd yn gwaghau y temlau paganaidd o'u haddolwyr, ac mewn ffyrdd ereill yn tynu sylw yr awdurdodau Rhufeinig. Yn y flwyddyn o. c. 112, darfu i Pliny, rhaglaw Rhufeinig Bithynia a Pontus (gweler *Map* o Asia Leiaf), ysgrifenu at yr Ymherawdwr Trajan i ofyn beth oedd e' i wneyd â'r lluaws Cristionogion yn ei diriogaeth. Nid oedd y Rhufeiniaid yn awdurdodi ond rhyw nifer neillduol o grefyddau, o'r rhai yr oedd Iuddewaeth yn un, a chyhyd ag yr ymddangosai Cristionogaeth yn ddim ond amrywiaeth o'r grefydd Iuddewig, nid oedd dim yn annghyfreithlawn ynddi; ond yr oedd yr agwedd yna ar bethau wedi pasio heibio, a methodd Cristionogaeth gael ei chyfreithiau o herwydd ei hyspryd ymosodol; nid oedd yn foddlawn i fyw ac i adael ereill i fyw; ni wnai oddef un cydymgeisydd; cyhoeddai ei hun fel yr unig wir grefydd, a holl ffurfiau ereill o addoliad yn ofergoelion gau. I'r sêl gyda'r hwn y cafodd yr athrawiaeth ei dysgu, mae ei llwyddiant yn ddyledus, ond ni chafodd ei chydnabod yn gyhoeddus hyd nes i'w hawl i fod yr unig wir grefydd gael ei ganiatau hefyd yn gyhoeddus. Gwnaed hyn yn y flwyddyn 323, pan y cyhoeddodd yr Ymherawdwr Cystenyn Gristionogaeth yn grefydd y wladwriaeth. Yn y modd hyn gallwn ddeall paham y meddyliai Pliny ei bod yn ddyledswydd arno i gospi Cristionogaeth

fel yn euog o weithredoedd annghyfreithlawn a therfysglyd. Ysgrifenai at yr ymherawdwr i ofyn a ydyw e' i wneyd unrhyw wahaniaeth oherwydd oedran neu nerth corfforol, i faddeu i'r rhai fyddo yn edifarhau, neu a ydyw e' i gospi am yr enw yn unig pan na fyddo un trosedd arall yn cael ei nodi. Dywed ei fod wedi holi llawer a oeddent yn Gristionogion, ac os cyffesent eu bod, ac os parhaent i gyffesu hyny wedi'n er gwaethaf bygythion, ei fod wedi eu hanfon ymaith i gael eu cospi. Yr oedd wedi gorfodi ereill i aberthu i ddelwau y duwiau a'r ymherawdwyr, ac i felldithio Crist, a'r rhai a wnaethent hyn yr oedd e'n eu gollwng hwynt ymaith. Yr oedd wedi poenydio dwy o swyddogion benywaidd yr Eglwys er ceisio gwybod rhagor am bynciau ffydd ac arferion y Cristionogion, ond nid oedd wedi darganfod dim ond ofergoeliaeth wrthun. Yr oedd haint wedi ymledu yn mhell ac agos, mewn trefi ac yn y wlad; o'r braidd yr oedd neb yn offrymu aberthau i'r duwiau (cymh. gyda golwg ar yr atgasrwydd a deimlid at fwyta pethau wedi eu haberthu i eilunod, Dat. ii. 14—20; Actau xv. 20—29); er hyny, mewn canlyniad i'w ymdrechion egniol ef, yr oedd y temlau yn dechreu llanw, a'u defodau yn cael y sylw priodol. Yn ei atebiad mae yr ymherawdwr yn canmol yr oll a wnaeth Pliny, ond yn dweyd na ddylid erlyn ar ol y Cristionogion, ac na ddylai cyhuddiadau dienw yn eu herbyn gael eu hystyried. Yn y modd hyn, trwy orchymyn ymherodrol, daeth y broffes o Gristionogaeth i fod yn drosedd agored i gael ei gospi â marwolaeth; dechreuodd yr erledigaeth *gyffredinol* gyntaf o'r Cristionogion, a syrthiodd rhagor nag un esgob yn aberth iddi. Yn debygol, y dygwyddiad yma a achosodd i ddau epistol gael eu hysgrifenu yn enw Apostolion, er mwyn cefnogi a chymhell y dysgyblion yn amser eu profedigaeth; y rhai hyn ydynt:—

Epistol Cyntaf Petr, ac Ail Epistol Paul at y Thessaloniaid.

Cafodd y blaenaf o'r rhai hyn ei ysgrifenu o Rufain (wrth Babylon y meddylir Rhufain, 1 Petr v. 13), a chan fod Petr yn barod yn gyssylltiedig â'r lle trwy draddodiad, ac yn eithaf possibl wedi dyoddef merthyrdod yno, mae'r llyfr yn ymddangos fel yn ysgrifenedig yn ei enw, er ei fod wedi marw yn hir cyn y flwyddyn 112. Yn yr adnod gyntaf golyga y gair "dyeithriaid" y dysgyblion oeddent ar wasgar oddicartref. Darllener y bennod gyntaf, gan sylwi mor gymhwys yw y ffydd Gristionogol i gefnogi dynion o dan erledigaeth, ac ar y modd mae'r ysgrifenydd yn galw arnynt (i. 13—16) i ddangos eu hunain yn deilwng o'r Efengyl oedd wedi cael ei dadguddio iddynt. Oddiwrth ii. 12, yr ydym yn gweled eu bod yn cael eu "goganu megys drwgweithredwyr," ac yr oedd hyny yn reswm ychwanegol paham y dylai eu hymddygiad fod yn ddifrycheulyd (cymh. ii. 20). Yn ii. 21—25, mae genym arddangosiad o wir werth dyoddefiadau Crist fel esiampl i'w ddysgyblion, ond mae wedi ei gymmysgu yn barod â'r syniad a ddadblygwyd yn ddiweddarach i'r athrawiaeth o aberth ddirprwyol (cymh. i. 18, 19). Mae yr epistol hefyd yn ddyddorol am ei fod yn dangos nad oedd etto wahaniad sefydledig rhwng yr offeiriad a'r bobl.

Yr oeddent i gyd yn offeiriadaeth freninol (ii. 9), gyda rhyw nifer o henuriaid fel arweinwyr.

Nodwedd wahaniaethol yr ail Epistol at y Thessaloniaid yw ei ymgais i ddeffroi y dysgwyliad am ddychweliad buan Crist i'r ddaear. Darllener y bennod gyntaf; ond mae'n esmwythâd i feddwl nas gall fod wedi ei ysgrifenu gan Paul ei hun.

XVII.

Yn ystod hanner cyntaf yr ail ganrif, yr oedd gan Gristionogaeth berygl mwy i sefyll yn ei erbyn nâ'r hwn a godai oddiwrth erledigaethau Rhufeinig. Yn awr, pan oedd yr Apostolion a'u cydoeswyr i gyd wedi marw, cafodd damcaniaethau gwylltion eu gosod allan gan athronwyr, y rhai oeddent yn derbyn gosodiadau sylfaenol Cristionogaeth, ond a ddadblygent o honynt y tybiaethau rhyfeddaf a ffurfiwyd erioed gan y meddwl dynol. Gall athrawon a garent weled hanes byr o'r damcaniaethau yma, yr heresiau Gnosticaidd, fel eu gelwir hwy, astudio y *Truthseeker* am Mai, 1877, yn neillduol tudalen 96. Fe fyddai yn hollol annghyfiawn tuag at y bardd Milton i'w gymharu i athronydd Gnosticaidd, oblegyd ni wnaeth ef ond gosod yr hyn oedd wedi bod yn hir yn athrawiaethau uniawngred mewn barddoniaeth fawreddog yn "Ngholl" ac "Adferiad Gwynfa." Ond mae Gnosticiaeth yn gynnwysedig o ddychymygion cyffelyb mewn perthynas i amcanion a gwaith Duw a Christ, angelion a chythreuliaid, ond eu bod wedi eu synied yn y fath yspryd fel ag i swnio yn ein clustiau ni fel y dwli mwyaf cableddus. Etto, bu amser pan oedd rhywbeth fel hyn yn cael ei gredu fel gwirionedd diamheuol. Yr oeddent yn dal fod math neillduol o amgyffrediad rhyw weledîad i bethau ysprydol, nad oedd ond ychydig yn ei feddu, a bod y wybodaeth fwyaf rhyfeddol o bethau nefol yn y modd hyn wedi cael ei ddadguddio iddynt. Cafodd y gwahaniaeth a osodwyd i lawr gan Paul rhwng y llythyren a'r yspryd ei gamgymhwyso ganddynt i gyfiawnhau y safle a gymmerent, yn gystal hefyd ag ymadroddion ereill, lle y mae yn siarad am wybodaeth ddwyfol: 2 Cor. ii. 14; iv. 6; x. 5; cymh. 1 Cor. viii. 1; xii. 8; xiii. 2—8. Yr oedd Paul yn sicr yn credu, mai trwy gyfrwng angelion y rhoddwyd y ddeddf i'r Iuddewon, Gal. iii. 19; ac oddiwrth Rhuf. viii. 38, yr ydym yn gweled ei fod yn credu yn modolaeth gwahanol raddau o fodau goruwch-ddynol (angelion, Tywysogaethau, a meddianau). Ond yr oedd y Gnosticiaid yn dychymygu cyfres gyfan o fodau dwyfol fel Crist, y rhai oeddent gyda'u gilydd yn cyfansoddi "cyflawnder" y Duwdod; a chyhoeddent fod Duw yr Hen Destament, er yn greawdwr y byd, yn Dduwdod israddol, yn mhell oddiwrth fod y Bod goruchaf. Darfu i'r Eglwys brotestio yn erbyn yr heresi hon mewn llawer o ffyrdd. Yn Ephesus, lle yr oedd Paul wedi llafurio cyhyd, ac wedi cyfarfod â gwrthwynebiad mor chwerw, yr oedd ei ddylanwad bron yn hollol wedi cael ei ddadymchwelyd gan eiddo'r Apostol Ioan (*gwel* Gwers IX.), ac yr oedd yr un peth yn wir, mwy neu lai, am holl Asia Leiaf, ond ymddengys fod

ymgais i adnewyddu ei awdurdod yno, ac i wrthwynebu yr heresi Gnosticaidd, trwy ysgrifenu epistolau newydd yn ei enw, wedi cael ei wneyd oddeutu y flwyddyn 130, ac mae yn debygol fod genym y fath ysgrifeniadau yn yr

Epistol at y Colossiaid, a'r Epistol at yr Ephesiaid.

Yn y blaenaf o'r epistolau yma, mae sylw yn cael ei gymmeryd o'r syniadau Gnosticaidd; er enghraifft, dywedir yn fwyaf pendant fod pob peth wedi ei greu gan, neu trwy, Grist; ac, o ganlyniad, nid gan Dduw Iuddewig israddol, Col. i. 15, 16; bod holl gyflawnder y Duwdod yn trigo yn Nghrist yn gorfforol, i. 19, ii. 9, yr hwn gyflawnder, o ganlyniad, nid oedd yn gynnwysedig o restr o fodau dwyfol. Sylwer hefyd ar y rhybudd yn erbyn philosophi a gwag dwyll, ii. 8. Mae athrawiaethau sylfaenol Paul—cyfiawnhad trwy ffydd, a gollyngdod y cenedloedd i mewn yn cael eu dirgymhell (Col. ii. 11—14, iii. 11), ond nid yw'r iaith y cyfryw ag a ddefnyddiasai Paul ei hun (er enghraifft, buasai ef yn dweyd, Iuddew na Groegwr), ac hefyd mae yma ymgaledíad amlwg o'r athrawiaeth o brynedigaeth trwy waed Crist. Mae y drydedd bennod yn esiampl fawreddog o annogaeth foesol ag y byddai yn dda ei darllen yn y dosparth.

Mae yr epistol at yr Ephesiaid yn dwyn y tebygolrwydd agosaf i'r Colossiaid, yn gynnwysedig mewn gair o'r meddyliau wedi eu gosod bron yn yr un drefn a'u helaethu ychydig. Gallwn sylwi ar ddyrchafiad cariad Cristionogol uwchlaw "gwybodaeth," iii. 19, hyd y nod fel moddion i gyrhaedd "cyflawnder" Duw, ac hefyd y cyfeiriad amlwg at yr athronwyr yn iv. 14. Mae'r annogaethau ar ddiwedd yr epistol vi. 11—18, gyda'u ffugrau milwrol, yn dangos mor ddifrifol yr ystyrid y perygl. Mae'r absenoldeb hollol o'r epistol hwn o bob crybwylliad am ddychweliad Crist yn ddangoseg o gyfnewidiad meddwl: yn Col. iii. 4, nid yw'r mater yn ddim ond cael ei grybwyll. Mae y bedwaredd bennod yn yr Ephesiaid yn un ragorol i'w darllen yn y dosparth, ac fe ddengys nad oedd yr Eglwys etto wedi colli, yn nghanol tryblith duwinyddiaeth haerdybiol, ei gallu i bregethu moesoldeb yn egniol ac effeithiol.

XVIII.

Ni allasai dylanwad yr apostol Ioan yn Asia Leiaf, rwystro dyddymiad y blaid Iuddewig Gristionogol yno; yn wir, erbyn yr amser hyn, yr oedd y ddadl eglwysig gyntaf wedi myned drosodd. Ond yr oedd y dylanwad hwn yn ei gwneyd yn beth dymunol, fod unrhyw waith newydd a ddeuai o'r rhan hono, ac a hawliai gydraddoldeb ag ysgrifeniadau ereill oeddynt yn barod wedi cyrhaedd cymmeriad cyssegredig, yn llefaru gydag awdurdod yr apostol neillduol hwnw. Felly, gwnawd ymgais, yn debygol, yn fuan ar ol y flwyddyn 130 i gael yr awdurdod hwn dros weithiau newydd oeddynt i osod allan syniadau rhai dysgyblion Cristionogol yn yr oes hono, a gwrthbrofi barnau hereticaidd a ymledent yn gyflym oddiamgylch iddynt. Yma, etto, yr ydym yn adgofio ein darllenwyr, ein bod yn unig yn cyhoeddi ffrwyth ymchwiliad

beirniaid anmhleidiol, ac mae'r unfrydedd gyda'r hwn y cytunant nas gall y gweithiau hyn fod yn gynnyrchion gwirioneddol yr apostol Ioan, yn ein galluogi i siarad yma gyda llawer iawn o hyder. Ond, er nas gallwn byth gyfiawnhau unrhyw ymgais i dwyllo, pa mor dda bynag fyddo'r amcan, etto, yn sicr, ni ddylem farnu y mater yn ol ein syniadau diweddar ni, a byddem wrth alw y gweithiau yma yn ffug-ysgrifau yn dwyn i mewn syniadau a fyddent yn ein camarwain, ac yn ein rhwystro i brisio gwir werth ac ysprydolrwydd yr ysgrifeniadau. Yr ydym wedi gweled fod epistolau gydag annogaethau moesol cyffrous wedi eu hysgrifenu yn enw Paul, ac yr ydym yn awr yn cael fod yr un rhyddid wedi ei gymmeryd ag enw Ioan. Gyda golwg ar yr efengyl, yr ydym ar unwaith yn sylwi ar y gwahaniaeth dirfawr mewn tôn sydd rhyngddi a'r tair ereill, y *synoptics* fel eu gelwir. Cymmerer, er enghraifft, yr araethiau hirion ag mae'r bedwaredd efengyl yn osod yn ngenau yr Iesu. Nid ydynt y peth ddysgwyliem ni i gael eu llefaru gan y dyn ydym wedi dysgu ei gymmeriad oddiwrth y tair efengyl gyntaf. Maent yn rhy lawn o lawer, o hunan-honiad; yr amcan yn barhaus yw gosod allan fawredd swyddogol yr Iesu, a beiant yr Iuddewon am wrthod ei hawliau personol mewn iaith, sydd yn swnio yn ddyeithr o enau un a omeddai gael ei alw yn "dda," yr hwn oedd yn addfwyn ac yn ostyngedig o galon, ac a ddangosai yn wastadol, mai am ei waith, ac nid ei hunan, y gofalai mor fawr. Ond a gadael hyn heibio, sut y gallai'r areithiau hirion yma gael eu cofio yn gywir? Maent mor wahanol oddiwrth ddywediadau byrion, nerthol, a dameg-ion byw y tair efengyl ag yw yn bossibl, ac maent yn llawn o syniadau oeddynt yn hollol ddyeithr i feddyliau dysgyblion y ganrif gyntaf. Mae yn amlwg fod yr awdwr wedi eu *cyfansoddi* i'r Iesu, a'i fod yn gosod allan y syniadau a feddyliai ef y buasai yr Iesu wedi eu traethu. Mae e'n gosod ei deimladau ei hun yn nghylch yr Iesu i enau'r Iesu ei hun. Darfu i Shakespeare gyda mwy o fedr dramayddol gyfansoddi areith-iau i'r brenin John a'r Cardinal Wolsey, a phersonau ereill a ymddan-gosant yn ei chwareugerddi hanesyddol. Yn yr un modd yr oedd Thucydides a Xenophon, a hen haneswyr ereill yn cyfansoddi areith-iau hirion, i'w gosod yn ngenau eu gwroniaid. A phan yr oedd yr athronydd mawr Groegaidd, Plato, yn dymuno cyhoeddi ei olygiadau, gwnaeth hyn trwy eu gosod yn ngenau ei athraw ei hun mewn athron-iaeth, Socrates; hyny yw, ysgrifenodd gyfres o ymddyddanion rhwng Socrates a phersonau ereill, gan roddi y fantais bob amser yn yr ym-resymiad i Socrates. Nid oedd ysgrifenydd y bedwaredd efengyl, ynte, wrth gyfansoddi yr areithiau hyn, ond yn dylyn hen arferiad. Ac nid ychydig fydd esmwythad llawer meddwl sydd wedi dysgu parchu Iesu y tair efengyl gyntaf, wrth gael allan fod y dôn o hunan-honiad a deimlir yn y bedwaredd efengyl i'w phriodoli i'w awdwr.

Yn debygol, y boreuaf o'r ysgrifenadau a elwir ar enw Ioan yw

Epistol Cyffredinol Ioan.

Yma cawn gyfeiriadau amlwg at addysg y Gnosticiaid, yn neillduol yn ii. 18; iv. 1—3; oblegyd yr oedd yr addysg yma yn gwneyd gwa-

haniaeth rhwng yr Iesu yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd, a'r Crist yr hwn ni ymddangosodd. Yr oedd heresi arall yn honi, fod y Crist wedi disgyn i lawr i'r dyn Iesu ar ei fedydd (a ddaeth trwy ddwfr), ond iddo ymadael cyn y croeshoeliad (ni ddaeth trwy waed). Yn erbyn y syniad yma cafodd v. 6 ei hysgrifenu, ac wedi'n cafodd llygriad diweddar iawn e ddwyn i mewn, sef y geiriau yn yr adnodau 7 a 8 o "yn y nef" i "ar y ddaear;" ychwanegiad a wnaed er ategu athrawiaeth y Drindod. Mae yr holl feirniaid yn cytuno eu bod yn ychwaniad diweddar, ac mae'n sicr na ymddangosant yn y cyfieithad diwygiedig. Gellir tynu gwers brydferth ac ymarferol oddiwrth y bedwaredd bennod, ac mae gwahaniaeth mawr rhwng cariad Duw fel ei darlunir yma, a'r cymmeriad digllawn a briodolir iddo yn Llyfr y Dadguddiad. Cafodd yr ail a'r trydydd epistol yn debygol eu hysgrifenu yn fuan ar ol y cyntaf, a chan yr un awdwr. W. J.

(*I'w derfynu yn y nesaf.*)

LLYFR.

Ol llafur a doniau yw llyfr denol,
Cyfaill yr aelwyd, heb nwyd niweidiol;
Mae'n gymhorth i feithrin dysg mewn ysgol;
Dwg i'r golau wybodaethau dethol;
Un yw e a wna ei ol—ar ddarllenydd;
Ha, wele Dywysydd hael, dewisol.

Mae'n lloni'r prudd—rhyw fudd i'w ryfeddu
Fwynhâ y gwr a fo yn ei garu;
Bob yn ronyn y llencyn sy'n llyncu
Addysg yn ffrwd trwy ei frwd efrydu;
Cannoedd sydd yn cwnu—o ddinodedd
I wir fawredd trwy ei iawn arferu.

Gwneir cyfaill ffyddlawn, uniawn o hono,
A gair o gyssur a geir o'i geisio;
Newyddian dall, un hawdd iawn ei dwyllo,
Yw y gwael, isel, a'i hesgeuluso;
Ond, i was a'i dewiso—mae llyfr glân
Yn loyw huan, i'w wiw oleuo.

Nid yw ei eiriau a nod ei araeth
I gyd yn bur, er dolur i'r dalaeth;
Ond os â'n ddiserch neu erch ei archwaeth,
Aml y sonir am ei hael wasanaeth;
Dwyn y byd o'i anwybodaeth—a wna;
Un yw a lesola luaws helaeth.

Yn hwn e gyhoeddir hen gywyddau,
A darnau grymus ar fedrus fydrau,
Traethodau gorchestol, denol dônau,
A sylweddol, hir ethol areithiau;
Da y gŵyr, â'i deg eiriau,—amgylchoedd,
Neu ddull y bydoedd a'u holl wybodau.

Mae yn cynnwys rhes o bob hanesion,
Nodau o ddaioni Duw i ddynion,
A hanes y Gwr hynaws a gwirion,
A roed i farw, er rhâd i feirwon;
A d'wed e fod lle llon—hwnt y bedd du
I deulu Iesu, lân, dawel weision.

DEWI HEFIN.

"A YDYW'R ATHRAWIAETH O BOENAU TRAGYWYDDOL YN GYSSON A CHYMMERIAD DUW FEL TAD?"

WRTH gydsynio â chais gweinidog a chynnulleidfa Gellionen, i ddarllen papyr ar y pwnc yma, nid wyf heb deimlo fod gorchwyl pwysig iawn wedi cael ei ymddiried i mi, ac nid wyf heb deimlo ychwaith na allaf wneyd cyfiawnder âg ef; yn

1af. Am fod y maes mor helaeth.

2il. Fod yr amser yn rhy brin i ddweyd yr oll a ddymunem.

3ydd. Am fy mod yn gwybod am fy analluogrwydd i drafod, yn foddhaol, bwnc o gymmaint pwys.

Cyn myned yn mlaen i roddi ateb pennodol i'r gofyniad, "A ydyw'r athrawiaeth o boenau tragywyddol yn gysson â chymmeriad Duw, fel Tad?" Y peth cyntaf sydd genym i gymmeryd dan ystyriaeth, fel yr ymddengys i mi, yw:—

1af. "A oes Duw yn bod neu nad oes?"

2il. Beth yw ei gymmeriad?

3ydd. A ydyw yr athrawiaeth hon yn gysson a'i gymmeriad fel Tad?

[O ddiffyg gofod, gadewir allan y pen cyntaf.]

2il. Beth yw cymmeriad y Duw yma? Y mae dynion, mewn gwahanol oesau, ac o dan wahanol amgylchiadau, wedi llettya, ac wedi traethu syniadau gwahanol iawn i'w gilydd mewn perthynas i gymmeriad y Duw byw. Edrychai yr Iuddewon amo fel Bôd partiol a neillduol ffafriol i'w cenedl hwy, tra na ofalai am genedloedd ereill y ddaear. Ië, yn wir, meddylient ei fod yn edrych gyda diystyrwch a gwarth ar y rhan arall o'r teulu dynol; ac oblegyd eu bod yn mabwysiadu y fath syniadau culion am dano, nid oedd ond peth naturiol ddigon, ac anocheladwy am hyny, fod eu syniadau am dano yn dylanwadu yn y fath fodd arnynt, ag i beri iddynt i ymdrechu bod yn debyg iddo; sef, i edrych ar bawb tuallan i gyffiniau eu gwlad fel estroniaid a gwrthodedigion. Dyma fel y gwnelai yr apostol Pedr un amser; ond wedi iddo gael ei wneyd yn Gristion, y mae yn ddyn gwahanol iawn, ac yr oedd yn mawr lawenhau yn y cyfnewidiad bendithiol er gwell oedd wedi cymmeryd lle yn ei enaid, ac oblegyd hyny, dywedai, "Yr wyf yn deall mewn gwirionedd, nad yw Duw dderbyniwr wyneb; ond y neb sydd yn ei ofni Ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymmeradwy ganddo Ef."

Hefyd, y mae, hyd y nod Cristionogion proffesedig wedi, ac yn parhau, i wahaniaethu yn mhell oddiwrth eu gilydd gyda golwg ar gym-

meriad ein Duw. Y mae un dosparth o honynt wedi dal nad oedd yn Dad i neb, ac na fuasai ddim yn gwobrwyo ond yn unig rhyw ychydig iawn, mewn cymhariaeth, mewn byd arall, tra y buasai yn gyru y rhan luosocaf i uffern o dân a brwmstân, tra y mae ereill wedi, ac yn mabwysiadu syniadau gwell am dano, ac yn ei gydnabod yn ddaionus i *bawb*. Y mae un dosparth wedi ei osod allan fel un na all faddeu i ddynion eu camweddau a'u pechodau, na'u cyfiawnhau heb gyfiawnder un arall, sef cyfiawnder Iesu Grist; ei fod wedi gofyn a chael cyflawn foddhad dros bechodau y cadwedigion yn marwolaeth waradwyddus y Messiah ar bren y groes. Y mae dosparth arall wedi coleddu syniadau gwell, mwy rhesymol ac ysgrythyrol mewn perthynas i'w gymmeriad, ac y maent wedi rhoddi eu rhesymau dros hyny. Yn awr, nid oes un amheuaeth yn ein meddwl ni yn nghylch hyn, sef, fod y syniadau a goleddwn ni am Dduw a'i gymmeriad yn dylanwadu, ac y dylent ddylanwadu, i raddau helaeth iawn, ar ein cymmeriadau a'n rhodiad yn y byd. Os edrychwn arno mewn goleu annghywir, annghywir hefyd, ond odid, fydd ein rhodiad. Os edrychwn arno fel Bôd annghymmodlawn a llidus, y mae yn beth possibl i ni allu credu yn ei fodolaeth; ond y mae yn llwyr anmhossibl, yn ol natur pethau, i ni allu ei garu â chariad pur a gwirioneddol; ond, o'r tu arall, os ydym yn credu ynddo yn ol fel y mae yn ei holl weithredoedd a'i air santaidd yn ei osod allan, sef, fel Bôd trugarog a graslawn, llawn cariad ac ewyllys da, yna cawn ein gorfodi i osod pob ymddiried ynddo, ac ni all dim fod yn foddion i'n hysgaru ni oddiwrtho Ef.

Yn awr, yn y cymmeriad yma y mae y Tad nefol yn cael ei ddarlunio yn y gyfrol santaidd, ac fel y cyfryw y mae yn appelio yn nerthol at ein natur oreu, ac os rhown chwareu teg iddo; os y cawn ein tywys rhag ein blaen trwy y byd gan ei gyfarwyddiadau Ef, ni allwn lai nâ bod yn blant mabwysiadol iddo Ef. Cawn ddyfynu ychydig, o lawer, o ymadroddion Beiblaidd, yn y rhai y mae yn cael ei osod allan yn y fath gymmeriad ag sydd yn appelio yn nerthol iawn at ein deall; y rhai, pe gallem ni fyned i'w hyspryd a deall eu gwir ystyr, fuasent yn ymlid o'n mynwesau bob meddwl drwg, ac yn creu nefoedd ynom trwy fod o honom yn gwneyd ymdrechiadau egniol ac effeithiol i debygoli mwy mwy o hyd iddo. "Daionus yw yr Arglwydd i bawb; a'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd." "Eithr ti, o Arglwydd, wyt Dduw trugarog a graslawn; hwyrfrydig i lid, a helaeth o drugaredd a gwirionedd." "Fel y tosturia Tad wrth ei blant, felly y tosturia'r Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant Ef." "Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau, a dychweled at yr Arglwydd; ac at ein Duw ni, o herwydd Efe a arbed yn helaeth." Cyffelyb ydyw'r iaith sydd yn gosod allan gymmeriad Duw mewn llawer o fanau ereill yn yr Hen Destament, y rhai nid yw amser yn caniatau i ni eu dyfynu.

Yn y Testament Newydd, y mae yn cael ei osod allan fel Bôd llawn o gariad ac ewyllys da, ac fel un sydd yn arfer pob moddion, cysson a'i lywodraeth foesol, i ddwyn oddiamgylch ddedwyddwch ei blant, ac fel un sydd wedi, ac a bair i'n caru ni â chariad annghyfnewidiol a thragywyddol—fel un nad oes dim llid yn perthyn iddo, ond yn gwneyd

pob peth yn y modd goreu, ac yn barod i dderbyn a chofleidio pob plentyn afradlon fydd i ddychwelyd oddiwrth ei ffyrdd drygionus a byw bywyd moesol neu ysprydol da. Dyma'r cymmeriad yn yr hwn y mae yn cael ei osod allan yn nammeg y Mab Afradlon, ac anmhossibl yw iddo gael ei osod allan mewn goleu mwy dymunol a gogoneddus. "Felly y carodd Duw y byd," medd yr Iesu, "fel yr anfonodd Efe ei unig-anedig Fab, fel na chollir pwy bynag a gredo ynddo Ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol; oblegyd ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo Ef." Ni all dim fod yn fwy amlwg a chadarn i brofi y gwirionedd yma, sef, mai hunan-gynhyrfiol gariad Duw y nefoedd ydyw unig achos y dadguddiad Cristionogol, ac y mae hyn yn wirionedd ddylem ei gofleidio yn anwyl, a mawr lawenhau ynddo, fel y byddo i ni gael ein cadw rhag pob drwg—pob peth sydd yn tueddu i'n cadwyno i'r ddaear, a phylu llygad y deall. Y mae y cariad yma yn beth annherfynol. Y mae gras a gwirionedd, neu yr efengyl wedi ymddangos yn y byd, a diolch i Dduw am ei fod wedi gwneyd ei ol ar y byd; ond y mae ganddo lawer yn ychwaneg i'w wneyd cyn y daw yr amser hwnw oddiamgylch, pan y bydd ein Harglwydd wedi teyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed, ac y byddo Duw oll yn oll.

Yn y cymmeriad o Dad ydym yn cael ein gorchymyn i agoshau gerbron Duw. "Pan weddioch, dywedwch, Ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." Dyma'r enw mwyaf swynol ac anwyl y gwyddai'r Iesu am dano, a dyma'r enw, neu y cymmeriad y mae yn gorchymyn pawb o'i ddysgyblion i'w anerch, ac i deimlo y berthynas agos sydd yn bodoli rhyngddynt âg Ef yn y fath fodd ag y byddont yn cael eu gorfodi i'w addoli yn mhrydferthwch santeiddrwydd, a phrofi yn eu hymddygiadau mai ei blant Ef ydynt yn ystyr oreu y gair. "Duw," medd Ioan, "cariad yw." "Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw tuag atom ni, oblegyd danfon o Dduw ei unig-anedig Fab i'r byd, fel y byddem fyw trwyddo Ef." Nis gall iaith osod allan yn fwy amlwg ac effeithiol beth ydyw cymmeriad y Bôd ydym yn cael ein galw i debygu iddo, a bod yn berffaith fel Efe. Gan nad beth mae yn ddysgwyl oddiwrth ei blant, golygu eu lles y mae. Ei gymhelliad iddynt yw, nid yn unig *na wnewch ddrwg*, ond *gwnewch yr hyn sydd dda*, ac ymgyfoethogwch ynddo. "Cyflawnder y gyfraith yw cariad." Pe buasem yn cymmeryd ein llywodraethu ganddo, buasai hyny yn achos o ddedwyddwch cyffredinol a goruchel trwy ein dwyn ni at y Tad, ac felly trwy aros mewn cariad, i aros yn Nuw, a Duw ynom ninau.

Sydd. Gofynwn bellach, A ydyw yn bossibl y gall yr athrawiaeth o boenau tragywyddol, fod yn gysson â'r fath gymmeriad? Na, nid yw, ac ni all fod chwaith. Efe sydd wedi ein creu ni, ac nid ni ein hunain, ac y mae yn ymddwyn tuag atom yn y byd yma, ac yn sicr, bydd iddo ymddwyn tuag atom i bob tragywyddoldeb, yn y berthynas anwylaf o Dad, ac oblegyd hyny, gallwn ymgyssuro dan yr ystyriaeth y daw yr amser oddiamgylch pan y bydd pawb wedi cael eu gwneyd yn gyfranogion o'r dedwyddwch hwnw y mae eu natur yn gymhwys i'w fwynhau yn ei amser doeth Ef ei hunan. Nid yw Duw ein Tad wedi dwyn ei

blant rhesymol i'r byd gyda golwg i'w hyrddio i'r tân tragywyddol yn uffern obry; na, na, y mae ein natur ni ein hunain yn gwrthdystio yn erbyn y fath athrawiaeth ddychrynllyd, ac y mae yn llon genym feddwl fod gwrthwynebwyr y cyfryw syniad annynol a dychrynllyd yn lluosogi yn feunyddiol yn y wlad hon, yn America, a thros y byd gwareiddiedig. Peth cyffredin iawn un amser oedd clywed offeiriadon a phregethwyr yn bloeddio mai yn uffern frwmstanaidd lythyrenol y buasai pawb hereticiaid, ac ereill, nad oeddynt yn dyfod o hyd i'r un casgliadau a hwynt; ond nid mor gyffredin y clywir hyny yn bresenol, a diau y daw llawer etto i ystyried yr athrawiaeth yma fel un annheilwng o Dduw cyfiawn, ac anfeidrol dda. Gwir yw, i fod y geiriau uffern, a cholledigaeth dragywyddol wedi cael eu harfer filoedd o weithiau yn y pwlpud a gwahanol fanau ereill, gyda golwg i ddychrynu dynion, a pheri iddynt deimlo yn resynus; ond y mae yn amheus gyda ni, pa un a ydynt wedi bod mor effeithiol er gwir ddaioni a gwir ddiwygiad, ag y mae llawer wedi meddwl. "Cymmerwch," meddai y Parch. Mr. Geldart, Croydon, "oddiwrth y pregethwr poblogaidd ei ddiafol a'i uffern, ac yr ydych yn ei yspeilio, fel yr ymddengys i mi, o holl bwynt ac amcan ei efengyl. Beth! meddai ef, onid oes genyf fi yr un dinystr i'w fygwth? Yna, nid oes genyf yr un iachawdwriaeth i'w chyhoeddi. Y pwll diwaelod, gydâ'i ddychrynfeydd, ydyw y sylfaen ar yr hon ydwyf yn adeiladu fy oll, hyd y nod piler a safon fy ffydd."

Y mae yn beth possibl fod dysgeidiaeth, neu eiriau o'r fath wedi peri i rai dynion o chwaeth isel, anwybodus a choelgrefyddol i deimlo yn drist, gofidus a melancolaidd, ac i dalu rhyw fath o ufudd-dod anwirfoddol i orchymynion y Duw byw, ac i edrych arno Ef a'i gymmeriad mewn goleu annghywir, anmhrydweddol ac adgas, a thrwy wneuthur felly wedi gwneyd mwy o ddrwg nag o dda; ond beiddiwn ddweyd, gyda phob sobrwydd a difrifoldeb, ei fod yn llwyr anmhossibl i ni garu Duw fel Tad â'r holl enaid, a'r holl nerth, ac â'r oll sydd ynom, wrth edrych ar ei gymmeriad a'i ymdriniadau â ni mewn goleu annghywir a gau; ond os ydym yn cael ein gorfodi i'w garu Ef fel y mae Efe yn ein caru ni, ni fydd y gwaith o ufyddhau yn galonog iddo i ymddangos yn drwm a beichus.

Fel y mae yn hyspys i lawer o honoch, y mae Canon Farrar, wedi bod yn trafod yr athrawiaeth o boenau tragywyddol yn ddiweddar yn Westminster Abbey, ac yr ydym yn cael ein tueddu i ddyfynu ychydig o'i sylwadau ef ar y pwnc, y rhai a wnaeth ar brydnawn dydd Sul, Tachwedd 11eg, 1877, yn hytrach na sylwadau neb o'n hysgolheigion ni ein hunain ar y pwnc; nid oblegyd fod ein ffydd ni yn wanach yn y cyfryw nag eiddo Dr. Farrar; ond oblegyd y gall fod yn bossibl y bydd i'w sylwadau ef gael derbyniad gan nifer mwy lluosog nag a fuasai yn darllen, gydag ystyriaeth a phwyll, sylwadau ein dynion dysgedig ni ar y pwnc, er nad ydynt ddim yn wahanol, oddieithr mewn gwisg allanol, efallai, i'w eiddo ef. "Pan wyf yn dywedyd, er y gall testynau gael eu dyfynu sydd, ar yr olwg gyntaf, yn rhoddi tebygolrwydd i'r fath ddulliau o ddysgu, etto, heb son dim am y ffaith fod y goleuni a'r cariad, y mae Duw ei hunan wedi eu cynu ynom ni, yn gwrthneidio oddiwrth-

ynt; y mae y testynau yma, yn y lle cyntaf, yn estronol i egwyddorion llydan unol (*unifying*) yr ysgrythyr; yn ail, eu bod wedi eu sylfaenu ar esponiadau disail eglur; ac, yn drydydd, am bob un a ddyfynir felly, gellir dwyn yn mlaen ddwy o'r ochr arall * * * * Ond hyd y nod pe buasai fel arall, unwaith yn ychwaneg, yn enw goleuni Cristionogol a rhyddid Cristionogol—unwaith yn ychwaneg, yn enw Yspryd addawol Crist, yr wyf yn protestio yn erbyn y gormes anwybodus o destynau unigol, yr hyn sydd wedi bod erioed yn felldith i'r gwirionedd Cristionogol, a gogoniant dynion o feddyliau cul, ac achos o'r cyfeiliornadau gwaethaf yn nyddiau gwaethaf yr eglwys fwyaf lygredig. Y mae anwybodaeth wedi cerfio testynau ar y cleddyf, a gormes wedi ei hargraffu ar ei llyfetheiriau, ac y mae creulondeb wedi clymu testynau o amgylch ei ffagodau; ac y mae anwybodaeth drachefn wedi gosod gwybodaeth o'r neilldu gan destynau wedi eu gwau ar ei faner. Y mae yr arferiad o yfed *Gin* wedi ei amddiffyn allan o Timotheus, a chaethwasiaeth wedi cael ei amddiffyn allan o'r Epistol at Philemon. Gall y diafol, fel y gwyddoch, ddyfynu ysgrythyr i ateb ei amcan, a darfu iddo ddyfynu testynau yn erbyn Crist ei hunan; a phan ddarfu i Saint Paul ymladd brwydr o ryddid Cristionogol yn erbyn melldith y Gyfraith, cafodd ei regu gydag holl *Pentateuch* o destynau. Ond, fy mrodyr, yr ydym ni yn byw dan oruchwyliaeth yr Yspryd Sanctaidd, a'n harweinydd ydyw Ysgrythyrau Duw yn eu hystyr llydan—y datguddiad o Dduw yn ei undod gogoneddus, llyfrau Duw yn eu symlrwydd tragwyddol, wedi eu darllen trwy oleuni yr yspryd hwnw o eiddo Crist sydd yn aros ynom ni, oddieithr ein bod ni yn wrthodedigion. Nid ein harweinydd ni yw, a byth ni chaiff fod, yr hyn a alwodd ein Harglwydd, "Y llythyren sydd yn lladd"—y sylweddoldeb gormesol o osodiad amheus, yr anffaeledigrwydd honiadol o destynau unigol. Ond os yw yr athrawiaeth fawr a dychrynllyd yma o gyflwr y marw mewn sefyllfa ddyfodol i gael ei gwneyd yn fater hollol a syml o destynau; os oddieithr fel canfrudiaeth (*anachronism*), nad ydych yn golygu, mewn gwirionedd, yr hyn ydych yn ei ddywedyd pan yn dywedyd,—"Yr wyf yn credu yn yr Yspryd Glan"! ! Os ydych yn dewis ein sibbolethau cysglyd a'n hen draddodiadau, yn hytrach na'r addewid fyw, "Mi a breswyliaf ynddynt, ac a rodiaf yn eu mysg," yna, yn enw pob peth, bydded i'r cwestiwn yma gael ei benderfynu gan destynau yn unig. Ond, wedi hyny, yn y lle cyntaf, rhaid yw i chwi fyned i'r gwreiddiol ysprydoledig, nid i'r cyfeithad cyfeiliornus; ac yn ail, rhaid i chwi gymmeryd geiriau ac esponio geiriau yn eu hystyr hanesyddol a phennodol; nid yn yr ystyr sydd yn eu gwneuthur i gyfleu i chwi filoedd o feddylddrychau na pherthynant yn wreiddiol iddynt.

Yn awr, yr wyf yn gofyn i chwi, fy mrodyr, yn sobr iawn, pa le y byddai y ddysgeidiaeth boblogaidd yn nghylch uffern, pe buasid yn gadael o'n Beiblau Seisnig yn bwyllog ac araf, y tri gair "damnedigaeth," "Uffern," a "thragwyddol?" Etto yr wyf yn dywedyd yn ddibetrus—dywedaf, gan hawlio yr hawl gyflawnaf i siarad gydag

awdurdod gwybodaeth—dywedaf, gyda'r teimlad mwyaf pwyllog a di-ildio o'm cyfrifoldeb—dywedaf, yn sefyll yma, yn ngolwg Duw a'm Hiachawdwr, ac efallai angylion ac ysprydoedd y meirw, na ddylai yr un o'r ymadroddion neu y gosodiadau yma sefyll yn hwy yn ein Beiblau Seisnig, a hyny o herwydd—yn ein derbyniad presenol o honynt, eu bod, yn syml, yn gamgyfieithadau, ac ni fyddant yn ddiambeu i sefyll heb eu besponio yn y cyfieithad wedi ei adolygu o'r Beibl, os yw yr adolygwyr wedi deall eu dyledswydd."

Yna y mae yn myned rhag ei flaen i roddi gwir ystyron y geiriau *damnedigaeth*, *uffern*, a *thragwyddol*, ond, er y carem ddyfynu y cyfryw, nid yw amser yn caniatau i hyny.

Cyn terfynu, gofynwn a ydyw Duw yn Dad i ni oll, os felly, ni allwn ni ddim llai na thynu y casgliad, sef fod ei lywodraeth yn dda a thadol hefyd, ac y bydd felly i barhau. Y mae pob mam dyner ei chalon yn sicr o gydnabod y ffaith yma, sef, nad oes dim yn achosi cymmaint o boen iddi hi â phechod ei phlentyn. Nid oes yr un gofid a thristwch yn fwy tost i fam a thad daearol na gweled eu rhai anwyl yn byw bywyd pechadurus ac isel, brwnt ac aflan, ac nid ydynt yn gweddio am ddim yn fwy taer nag iddynt ddychwelyd oddiwrth y cyfryw a byw. Llawer mwy yn ddiau, y mae y Tad nefol yn ein caru, ac yn golygu ein lles. Y mae i bob drwg, fel y mae rhai os nid pawb o honom yn gwybod, ei ganlyniad chwerw anocheladwy; ond ni allwn ni ddim credu fod Duw a dynion etholedig yn gorfoleddu yn ysgrechfeydd tragwyddol, diddarfod a dibwrpas da y damnedigion yn uffern obry. Nid yw ein Creawdwr doeth yn ewyllysio yr un niwed i ni. Y mae cosp yn canlyn pechod mor sicr ag mae y dydd yn canlyn y nos. Y mae pob gweithred ddrwg yn sicr o ddwyn ei chanlyniadau naturiol ac anocheladwy gyda hi; ond cyflwr meddwl a chalon yw uffern a nefoedd, ac nid oes angen am le neillduol. Cymmeriad dyn, a dim arall, sydd yn penderfynu pa un a ydyw yn nefoedd neu yn uffern. Y galon, ac nid y lle sydd yn achosi ein debwyddwch neu ein hannedwyddwch. Y mae uffern yn ddiau i'w chael, ac o enaid yr euog, fel y dywed un, yr esgyn mwg digofaint a gwae, hyd oni fyddo wedi cael ei ymlid yn llwyr oddiyno.

"A dro'nt oddiwrth y nefol Gun,
Dîr i bob un ei gerydd,
I'w gipio'n ol o ddrygau'r byd,
I arwain bywyd newydd.

Mae'n galw 'n daer, awn ato'n war,
Awn yn edifar hollol;
Yn hir dan gosp Efe ni 'n gad;
Fawr fyth i'r cariad nefol."

Tra yr ydym ni gan hyny yn credu mai Duw yw Ein Tad ni oll, ni allwn gredu ar un cyfrif fod yr athrawiaeth o boenau tragwyddol diamcan da yn gysson â'i gymmeriad Ef. Nad beth all syrthio i'n rhan galluoger ni i ddywedyd, "Dy ewyllys di, O Dad, a wneler."

Terfynwn yn ngeiriau John Page Hopps. "O gyfeillion! y fath ffydd werthfawr yw ein ffydd ni, yr hon nid yw yn gadael lle i un ofn. Gellwch chwi fod yn dywyll ddigon; ond goleuni perffaith ydyw Ef, ac ni fydd byth i'ch gadael. Efe a'ch arweinia dros yr ychydig ddyddiau y byddwch yma yn hwy. Efe a'ch arweinia pan ddeloch i'r cysgod tywyll yr hwn a guddia oddiwrthym ni y byd hwn, a ninau oddiwrth y byd. Efe a'ch arweinia yn y byd rhŷfeddol hwnw lle y bydd pob peth mor hynod newydd. Dichon i ni betruso a diffygio ac amheu; dichon i'n gwrhydri gwael fethu, a'n doethineb, yr hwn sydd yn ymddangos, ar rai prydiau yn bresenol, mor gadarn, ymadael â ni, neu fod yn ddiddefnydd i ni yn awr angeu; ond chwi a gewch weled Iechydwriaeth eich Duw.

Ni allaf ofni gan hyny, y mae Bywyd, Marwolaeth, Barn, Nefoedd, Uffern, Tragwyddoldeb, yn gyflawn o Dduw, a lle mae Duw yn bod ni all yr un drwg ddygwydd i ni. O Tydi, yr hollol brydferth a bendigedig y greadigaeth, pa fodd ydwyt Ti yn ein hamgylchynu. Byddwn yn wastad gyda Thi; ac ynot ti nid oes yr un tywyllwch."

Dyma'r Bod y dylem oll ymddiried ynddo a'i garu, ac wedi i ni ei weled, yn ei holl ogoniant, ni allwn ddim llai na gwneyd felly, ac yna ni a fyddwn yn y nefoedd.—*Y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, yn y Gellionen, Haf*, 1878.

YSTORM.

Yn mrig y tal hwylbreni gwichiai 'r gwynt,
Tuchanai, ocheneidiai fel mewn poen;
Mewn gwewyr oedd y tonau ar eu hynt,
Ymsuddent i ymgodi 'n wyn eu ffroen.
Y llong a ddawnsiai ar y llidiog lyn,
Ar allt erchyllaf angeu llithrai 'n chwai;
Y nefoedd byg-ddu gauai arni 'n dyn,
Yn gwrlid angeu arni gorphwys wnai.

Brycheuyn bach y llong ar awr fel hon,
Abwydyn gwan y capten dewr ei fryd;
Y morwr hen a'i farf fel brig y don
Sy'n ofal ac yn bryder drosto i gyd;
A ffurf ei anwyl briod draw yn nhref
Ymrithia fel mewn bywyd ger ei fron;
A'r syn ymfudwr—hed ei galon ef
At rai adawodd ar ei aelwyd lon.

O dyma chwthwn rolia 'r llestr gu
Nes ar ei hochr y talgynga 'n glau;
A chwthwn arall! Arglwydd, achub ni
O'r farwol safn am danom sydd yn cau.
Mae'r du waelodion fel ellyllon certh
O rhwng y tonau yn hylldremio 'n gas,
A'r gwlaw a'r cenllysg mewn llifeiriol nerth—
O Iesu! gwared ni o'th ddwyfol ras.

Bay of Biscay,
Hyd. 7fed a'r 8fed, 1877.

T.

SUT Y DYLAI DYNION DREULIO EU HAMSER.

Mewn gwneuthur daioni.

Tybia rhai dynion mai rhoi arian i gardotwyr, dysgu mewn ysgolion Sul, o galwedigaethau cyffelyb yw yr unig ffyrdd i wneuthur daioni. Cenfigenant wrth weinidogion a phobl gyfoethog ac ereill ag ydynt yn meddu cyfleusderau mawrion i wneuthur daioni a gwneuthur pobl yn ddedwydd.

Mae yn ddiamheu gyfleusderau hyfryd gan y cyfryw bersonau i wneuthur daioni; ond oddiwrth y rhai y mae llawer wedi ei roddi iddynt, fe ofynir llawer; ond y mae gan bob un gymmaint o gyfleusderau i wneuthur daioni ag y gall wneuthur defnydd da o honynt, ond iddo edrych allan am danynt. Mae pa beth bynag sydd yn ol ewyllys Duw yn gyflawniad o ddaioni; am y mae yn ol trefn ac am hyny yn tueddu i gynnyrchu dedwyddwch.

Mae pob mam, pan fyddo yn golchi ei phlant, yn glanhau ei thy, yn parotoi bwyd i'w gwr, yn cyweirio ei hosanau, yn canu ei baban i gysgu, yn gwneuthur daioni; a *gall fod* yn gwbl mor fendigedig wrth wneuthur hyny a phe byddai yn mynychu cwrdd gweddi.

Mae pob dyn pan fyddo yn dilyn ei orchwyl gwaith yn onest, yn cywirio ei esgidiau, yn gwau brethyn, yn gwnio dillad, yn tori glo, neu godi mwyn, yn gwneuthur daioni; a gall fod mor gwbl fendigedig wrth wneuthur hyny a phe byddai yn hau gwenith i'w osod yn ngeneuau dynion sydd ar fin newynu.

Mae plant bychain y rhai ydynt yn gadael eu chwareu i ofalu am y babi ac yn myned ar neges dros eu mam, neu yn myned i'r ysgol ac yn dysgu eu gwersi yn ddiwyd, yn gwneuthur daioni; a phan yn campro ar bob llaw mewn chwareufaoedd hapus, maent yn gwneuthur daioni hefyd; byddant yn fendigedig os carant yr Arglwydd, oblegyd y mae eu hangylion yn wastad yn gweled ei wyneb yn y nefoedd.

Mae yn feddwl dedwydd i ystyried y gallwn fod yn gwneuthur daioni trwy'r dydd gwyn, os byddwn yn ymwneyd â gorchwylion defnyddiol; ac y mae pob peth yn ddefnyddiol ag y mae angen am dano, a phob peth sydd yn tueddu i ddyrchafu ein natur, a galw allan angenion uwch.

Ond os bydd dynion er mwyn bywiolaeth yn gwneuthur yr hyn sydd niweidiol; yn gwneuthur ac yn delio allan bethau gwenwynig ac yn ymroddi i chwantau'r cnawd, ac yn hudo i bechod; pa esgusodion bynag a wnant drostynt eu hunain, maent yn cyflawnu gwaith y diafol ac yn parotoi uffern yn eu heneidiau eu hunain.

Y rhai a wnant dda o gariad at Dduw ac o wir ewyllys eu calon, maent yn adeiladu nefoedd o'u mewn, yn gosod i fyny drysorau na ddichon y byd eu cymmeryd oddiarnynt. Y bendigedigrwydd yma mae Duw yn ei gynnyg i'r iselaf yn ein plith.

Ddarllenydd, a fyddi di byw o hyn allan i wneuthur daioni?

RHESYMAU DROS I BLANT UFYDDHAU I'W RHIENI.

CYFLWYNEDIG I BLANT.

Y MAE plant sydd yn caru eu rhieni yn sicr o ufyddhau iddynt, a chymmeryd dyddordeb a phleser wrth wneuthur felly. Bydd iddynt ufyddhau yn brydlon a chalonog, ac ni fydd iddynt i ofyn paham y dylent wneyd felly, neu ddywedyd y buasai yn well ganddynt wneyd rhywbeth arall heblaw yr hyn a ofynir ganddynt i'w gyflawni. Hyd y nod pan yn nghanol eu chwareu bydd iddynt yn ddirwgnach ei adael ar unwaith, pan y gorchymynir iddynt, ac hyd y nod pan yn cael eu hamddifadu o'r hyn sydd o werth nid bychan yn eu golwg, ac felly dangos eu bod wedi dysgu y wers o ufydd-dod, neu ymostyngiad a pharodrwydd i gydsynio a dymuniadau a gorchymynion eu henach a'u doethach. Pan y mae y cyflwr hwn o deimlad yn bodoli mewn teulu, y mae yno lawer o ddedwyddwch, oblegyd y mae pob peth yn myned rhag ei flaen yn ddymunol a hwylus; tra, yn y gwrthwyneb, lle y mae plant yn hollol anufydd, neu yn ufyddhau mewn modd anewyllysgar, y mae yno annghydfod a theimladau annymunol yn barhaus. Y mae ufydd-dod parod a siriol fel olew ar y peiriant cartrefol, tra y mae ufydd-dod anmharod a cheintachlyd fel grut, neu gerryg bychain yn mhlith yr olwynion; y mae yr un blaenaf yn peri i bob peth fyned yn mlaen yn hwylus a dymunol, tra y mae y llall yn peri i bob peth fod o chwith. Y mae hyn o hono ei hunan yn un rheswm da a mawr dros ufydd-dod, y mae yn gymhorth mawr i wneyd cartref yn ddedwydd. Y mae dynion fyddo wedi tyfu i fyny yn gwybod hyn yn dda, ac er nad oes gan rai o honynt i ufyddhau yn yr un ystyr a phlant dan eu hoed a dibrofiad, etto i gyd, y maent yn parchu ac yn talu sylw ac ufydd-dod i ddymuniadau ereill.

Drachefn, y mae cariad hir-barhaol a didwyll rhieni yn rhoddi iddynt hawl i orchymyn, ac o ganlyniad, yn ei wneyd yn ddyledswydd i blant i ufyddhau. Y mae pawb, yn wryw a benyw, yn teimlo i'r graddau pellach garedigrwydd o du ereill, ac oblegyd hyny, yn hawlio eu hufydd-dod os bydd hyny yn bossibl, ac y maent yn teimlo hyfrydwch pan yn alluog i ad-dalu eu cyfeillion am eu caredigrwydd yn ufyddhau iddynt, ac yn ymddwyn tuag atynt fel y dymunent. Felly, y mae sefyllfa rhieni, fel rhieni, yn hawlio eu hufydd-dod hwythau, pan nad yw yr ufydd-dod hyny yn beth pechadurus; ac y mae pawb plant sydd yn teimlo caredigrwydd eu rhieni yn sicr o gymmeryd pleser mawr mewn ad-dalu, neu ufyddhau iddynt, trwy ddwyn eu serch i ymarferiad, a theimlant na allant fyth wneyd gormod dros eu rhieni. Y mae dynion o ddymuniadau a theimladau da yn gofidio wrth sylwi ar annufydd-dod plant, ac yn teimlo ei fod yn beth an-naturiol ac anweddaidd iawn. Yn amser Moses, edrychid ar annufydd-dod fel trosedd mawr iawn, fel yr oedd yn cael ei gosp trwy gymmeryd y mab anufydd tuallan i'r ddinas, ac yno ei labyddio i farwolaeth â cherryg. Er nad yw dynion yn llabyddio plant anufydd â cherryg i farwolaeth yn ein dyddiau ni, etto i gyd y maent yn teimlo fod anufydd-dod parhaus a chyndyn i rieni yn fai mawr iawn, a gochelant y sawl sydd yn euog o hono.

Diau ei fod yn ymddangos yn galed i blant i ufyddhau yn galonog bob amser fel y dysgwylir iddynt wneyd, a hyny, oblegyd nad ydynt yn gweled y rheswm dros hyny ar yr adeg bresenol. Y maent ar rai prydiau yn awyddu yn fawr am y pethau y dywedir wrthynt nad ydynt i'w cael, oblegyd y buasent yn niweidiol iddynt. Fel y gwyddom, y mae plant bychain yn llefain am bethau fuasai yn eu hanafu, eu llosgi, neu beri niwed mawr iddynt mewn rhyw ffordd arall, ac y mae y rhai sydd mewn oed yn gweled y rheswm paham fod yn rhaid gosod atalfeydd ar eu ffordd; nad yw o un dyben da i roddi ffordd iddynt. Y mae eu henach hwy yn teimlo ar rai prydiau yn siomedig pan ddywedir wrthynt nad ydynt i gael, neu i fyned i'r man y maent yn dymuno myned, neu fod yn rhaid iddynt roddi i fyny gwmniaeth cyfeillion neilldnol maent yn rhy hoff o honynt. Gallant fod yn sicr, modd bynag, fod rhesymau da gan eu rhieni dros yr hyn maent yn ddweyd a'i wneyd, er nad ydynt hwy ddim yn gwybod beth ydynt.

Pe buasai genym ni i fyned ar daith faith trwy ryw le llawn o anhawsderau a pheryglon, mor ffodus, onide, y buasai genym ni yn arweinydd un oedd yn gwybod y ffordd trwy yr holl wlad; un oedd wedi bod drosti, a thrwy hyny yn gwybod am ei peryglon, a pha fodd i'n dwyn ni yn ddyogel trwyddi. Annoeth iawn fuasai y dyn hwnw yn cael ei ystyried, yr hwn, wedi ei fendithio ag arweinydd dyogel, fuasai yn gosod ei hun i fyny yn erbyn barn y fath arweinydd, ac yn dywedyd, "Oh, gwell fuasai genyf fi gymmeryd y llwybr yna," neu, "Nid wyf yn ymofyn gwneyd hyn ac arall." Pe buasai y fath berson yn gyndyn, ac yn gomedd gochelyd yr hyn oedd wedi cael ei rybuddio fwy nag unwaith yn ei gylch, ni fuasem yn petruso dweyd ei fod yn haeddu dwyn un trafferth neu gosp mae wedi ei ddwyn arno ei hun. Pan y mae pobl yn dringo i fyny i'r Alps a mynyddoedd uwch, y maent yn dethol y fath arweinydd, yn gosod eu hunain yn gyfangwbl dan ei arweiniad, ac yn ufyddhau i bob arch o'i eiddo a'i gyfarwyddiadau goleu, ac wrth wneuthur felly y maent yn cyflawni gyda dyogelwch, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, eu gwaith go beryglus, eu taith anhawdd.

Felly yn union gyda golwg ar daith bywyd. Y mae tymhor ieuenctid, yr hyn yw dechreuad y daith yma, yn llawn o beryglon, a rhieni plant yw eu harweinyddion trwyddi. Pe buasai pobl ieuainc yn cael caniatad i gael pob peth maent yn hiracthu am dano yn eu mynediad rhag eu blaen trwy y daith hon, buasent yn dwyn gofid mawr iawn arnynt eu hunain yn gystal ag ereill, a naill ai yn methu myned trwyddi o gwbl, neu heb gael niwed mawr. Y mae rhieni, y rhai ydynt yn arweinyddion, wedi myned dros y daith yma o'r blaen, ac y maent yn gwybod trwy brofiad beth ydyw ei pheryglon a pha fodd i'w gochelyd. Pan ddywedant wrthym beth i'w wneuthur a pheth i'w gochelyd, eu cariad sydd yn eu cymhell i hyny; a chan wybod hyny, a chan wybod hefyd eu bod hwy wedi cael prawf o'r un pethau, os ydym yn ddoeth ni a ufyddhawn yn y modd mwyaf calonog a dirwgnach iddynt, fel y mae teithwyr yn ufyddhau i'w arweinyddion. Y mae profiadau mawrion a gwerthfawr rhieni da, fel rhyw uchelder uchel iawn oddiar yr hwn y gallant weled y peryglon y mae eu plant yn agored iddynt. Dedwydd

yw y plant sydd ganddynt ffydd yn eu rhieni, ac yn ufyddhau iddynt yn galonog, oblegyd wrth wneuthur felly, bydd iddynt ochelyd llawer codwm a pheryglon dirfawr a dychrynllyd!

Gwelwn, gan hyny, fod llawer o resymau dros paham y dylai plant ufyddhau i'w rhieni. Y mae ufydd-dod yn gymhorth i wneyd cartref dedwydd. Y mae gofal a chariad rhieni, a'u profiadau mwy addfed o fywyd yn hawlio ufydd-dod iddynt. I osod y mater mewn geiriau ereill, dylai plant ufyddhau i'w rhieni o herwydd fod hyny yn achosi dedwyddwch gartref, ac o herwydd fod eu rhieni yn eu caru ac yn llawer mwy doeth nâ hwynt. Oblegyd hyn y mae y Beibl a phawb dynion da yn dywedyd wrth blant y dylent ufyddhau i'w rhieni, a dyma y rheswm paham y dywed apostol mawr y cenedloedd wrth yr Ephesiaid, "Y plant ufyddhewch i'ch rhieni yn yr Arglwydd, canys hyn sydd gyfiawn." B. T.

ADOLYGIAD AR

"EMYNAU O FAWL A GWEDDI:" RHIF. DIWEDDAF, TUD. 185—9.

Yn yr erthygl uchod dygwyddodd rhai gwallau argraffyddol o bwys—peth lled anarferol yn swyddfa bresenol yr YMOFYNYDD. Tud. 186, llin. 23 o'r godre darll. "yr un a gynygir;" tud. 187 llin. 20 o'r godre yn lle "hyn" darll. "hymn" ddwywaith; llin. 7 o'r godre yn lle "minau" darll. "ninau;" tud. 188 llin. 3 o'r gwar, darll. "iddi" yn lle "iddo;" llin. 13 o'r gwar yn lle "ymrwymiadau" darll. "ymresymiadau;" llin. 12 o'r godre ar ol y gair "llyfr" doder i fewn y geiriau "gwneuthur hyn" yn anhawdd.

O.Y.—Mae ychydig o wallau ychwanegol yn y Llyfr Emynau wedi dyfod o dan sylw: nid yn effeithio cymmaint ar y synwyr, dichon, ond yn galw am eu cywiro pan ddelo ail-argraffiad allan. Mesur hymn 165 a ddylai fod 8*au* nid M.C. Yn hymn 143, y llinell olaf o'r pennill cyntaf, dylai "Arglwydd" fod yn "Harglwydd," fel yn yr 2il bennill o hymn 11. Yn hymn 304, llinell 6ed, yn lle "ei" darll. "eu." Yn hymn 346 pennill 3, llinell 2, yn lle "oll" darll. "holl." Yn hymn 362 llinell 4, yn lle "a'u" darll. "a'n." Yn hymn 363 pennill 3, llinell 1, yn lle "Roddwr" darll. "Rhoddwr." Yn hymn 344 pennill 1, llinell 4, mae "'n" wedi ei gadael allan o flaen "llef." Yn hymn 220 pennill 1, llinell 4, yn lle "siwrnai" darll. siwrnau, fel yn hymn 210. Yn hymn 288 pennill 4, llinell 4, yn lle "lwybrau" darll. "llwybrau." Yn hymn 276, pennill 3, llinell 1, yn lle "bob" darll. "pob." Yn hymn 264, pennill 2, llinell 1, yn lle "i'th" darll. "'th." Yn hymn 267 pennill 3, llinell 3, yn lle "rho'n," ai nid "rho" ddylai y gair fod, er mai y ffurf flaenaf a gawn yn Iolo? Mae y casglydd presenol fel Iolo ei hun yn petruso rhwng "trugaredd rad" a "trugaredd rhad;" cawn y ffurf flaenaf yn hymn 192, yr olaf yn hymn 208, fel enghraifft. Yn hymn 298 pennill 1, llinell 1, naill ai dylai yr "O" gael ei symud ymaith, neu o leiaf y *comma* ar ei hol, tra yn yr 2il bennill, llinell 1, nis gellir symud yr "O" i ffwrdd, ond dylid

dileu y *comma*. Cyfeithad "T. E." o Horne, yw hymn 230, hymn 228 yw eiddo Matthias Claudius. Pwy yw awdwr hymn 171 yn Gymraeg? Ai Goronwy Owen a wnaeth y ddau gyfeithad o Collett?

Geiriau Annghynnefin.

Tybiem y dylai rhagor o'r rhai hyn i gael eu hegluro mewn argraffiad dyfodol. Gwyddom yn dda fod llawer o eiriau yn yr hymnau, yn enwedig o Iolo, a genir yn gyffredin, nas deallir gan yr ieuainc, nac, fel y mae gwaethaf y modd, gan ddynion mewn oedran, ag ydynt wedi bod yn canu yr hymnau hyn am flynyddau lawer. Nodwn fel ychydig allan o lawer y rhai canlynol: *dadwyrain*, y wawr; *eirian*, dysglaer, tanbaid; *pwyll*, deall; *ymbwyll*, rheswm; *lleufer*, goleuni, gwawl; *cyfrin*, mynwesol (Bydd gyfaill cyfrin i ni); *clau*, cywir, ffyddlawn (cyfaill clau), buan; *cyrch* (Noun), cyfeiriad (cyrch fy nhaith); *cyrch* (Verb), cyrhaedd, ymgyrhaedd, amcanu (ni'm cyrch na braw na gofal); *goslef*, ton, sain; *eiliw*, delw, llun; *arwyrain*, salm o fawl; *diriaid*, enbyd, peryglus; *arwest*, cân i'w chanu ar don; *tau* (y geiriau tau), dy; *arail*, bugeilio, porthi, gofalu am; *irad*, tost, torcalonus; *cyflwyr*, hollol; *adwyth*, niwed, colled; *ystig*, parodol, gweithgar, ufydd; *rhydwyll*.

Nid yw y pethau uchod wedi eu nodi er mwyn cael lle i feio, ond er mwyn cadw at yr hen arwyddair: "Nad da lle y gellir gwell."

Hyd. 15, 1878. W. T.

[Mae yn hyfrydwch genym roddi y sylwadau ychwanegol uchod o eiddo Mr. Thomas yn yr Ymofynydd, fel y gallo perchenog pob llyfr ddiwygio y gwallau a fyddont yn ei olwg yn bwysig. Mae rhai o honynt o fwy pwys na'u gilydd, rhai ag yr amheuwn eu bod yn wallau, ac y gwnawn dro arall o bossibl sylw o honynt, ond oll yn deilwng o ystyriaeth golygydd yr argraffiad, neu gasglydd y llyfr emynau nesaf. Mae y sylwadau ar y Geiriau Annghynnefin yn deilwng o'u meistroli gan bob un fyddo yn defnyddio y llyfr. Ceir mesur 165 yn gystal a 76 a 330 wedi eu rhoddi yn iawn yn y Mynegai i'r Mesurau. Yn y Mynegai i'r llinellau cyntaf, ar ol Mae planedau lu, &c., darllener, W. J., ac yna bydd yn ateb yr enw yn y Mynegai i'r Awdwyr.—Gol.]

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnaliwyd Cyfarfod Chwarterol Undodiaid y Deheubarth am yr Hydref yn y Cribin, ger Llanbedr, ar ddyddiau Mercher a Iau, yr 2il a'r 3ydd, o'r mis hwnw. Er ymadawiad y Parch. R. C. Jones o'r weinidogaeth yn y lle, ar ol bod am beth amser heb weinidog sefydlog, ymgymmerwyd â gofal yr eglwys gan y Parch. David Evans, B.A., Maesymeillion, yr henaf o'n gweinidogion yn bresenol, yn nesaf at y Patriarch o Nottais yn Morganwg. Dechreuwyd am 6 nos Fercher, gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, ar y geiriau, "Canys i ryddid y'ch galwyd chwi, frodyr; yn unig nac arferwch y rhyddid yn achlysur i'r cnawd, ond trwy gariad gwasanaethwch eich gilydd." Canlynwyd ef gan y Parch. John Evans, Gellionen, ar y testyn: "Oni wyddoch chwi mai teml Dduw ydych, a bod Yspryd Duw yn trigo ynoch? Os llygra neb deml Dduw, Duw a lygra hwnw: canys santaidd yw teml Dduw, yr hon ydych chwi." Nid oedd y cynnulliad ond hytrach teneu, ac etto nid cynddrwg ag ystyried mai noson waith oedd, ac nad yw yr Undod-

iaid yn y parthau amaethyddol o'r wlad yn enwedig, yn credu llawer mewn addoli Duw wrth oleu canwyllau. Yr oedd golwg weddaidd iawn ar y gynnulleidfa, y rhan fwyaf o honynt yn eu dillad gwaith, ac yn dal yn rhagorol heb gysgu. Yr oedd nifer y gwrrywaid a'r menywaid rywbeth yn gyfartal.

Dranoeth, fel y dydd blaenorol, yr oedd yr hin yn odiaeth o deg, a chan fod y cynauaf eleni yn hen drosodd, ac adeg dodi y gwenith braidd heb ddod, gallesid dysgwyl cynnulliad lluosog. Yn wir, yr oedd yn weddol felly, ond dylasai fod yn fwy. Ychydig o belledigion oedd yno, ac yr oedd aml i benteulu o'r ardaloedd cyfagos a'i le yn wag. Pa fodd bynag erbyn deg o'r gloch dydd Iau, yr oedd yno dorf weddaidd, gyfrifol, a deallus. Dechreuwyd gan y Parch. R. C. Jones, a phregethwyd y bregeth gan y gweinidog appwyntiedig, y Parch. W. James, B.A., Aberdar, oddiar y geiriau : "Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw." Mae y braslun anmherffaith a ganlyn at wasanaeth eich darllenwyr.

'Gosodir mwy o bwys ar y ddyledswydd hon o garu Duw yn y Beibl nag ar un arall. Ceisiwn ateb y gofyniad, Paham y dylem garu Duw? Nid yw yn canlyn ein bod yn caru Duw os yn rhodio yn allanol yn weddaidd. Mae hyn ynddo ei hun yn dda, ond os na fydd sylfeini y cymmeriad wedi eu rhoi yn iawn yn eu lle daw y diffyg i'r golwg. Dywed Prof. Huxley, ein bod yn chwareu *game* bywyd yn erbyn llaw anweledig. (*We play the game of life with an invisible hand.*) Bydd dyn yn adeiladu tŷ da, ond os bydd man gwan yn y sail, neu ddefnyddiau rhad yn yr ochrau, er na lefara yr adeilad, etto, dengys y diffyg ei hun maes o law. Mae blodeuyn yn cael cam. Nid oes ganddo dafod i lefaru ; ond—gwywa. Rhaid i ddeddfau gosodedig gael eu cadw, onide troant â'u holl nerth yn ein herbyn. Deddf bywyd pawb o honom yw cariad at Dduw, ynte rhyw ddylanwad trawsarglwyddiaethol ac allanol.

Rhoddir rhesymau gau yn fynych paham y dylem garu Duw :—(1.) Dywedir wrthym y dylem garu Duw am mai Efe yw ein Creawdwr. Mae yn amheus a yw y rheswm hwn yn werth yr anadl a'i parabla. Y pwnc yw, Beth oedd ei ddyben yn ein creu? Beth yw ein bywyd ni i fod? Bydd rhieni weithiau yn hawlio serch eu plant am mai hwy a'u dygodd i fodoliaeth. Nid y ffaith hon yw y sail i serch, ond yr addysg fo rhieni wedi roi i'w plant.

(2.) Hefyd, y dylem garu Duw am ei fod yn fawr, ac yn gorchymyn i ni i'w garu. Nid yw y mawr o angenrheidrwydd yn hawddgar. Nis gall gorchymyn rwymo'r galon. Nid ydym yn caru am ein bod yn cael ein *hordro* i garu. (3.) Am fod Duw yn ein caru ni. (4.) Oblegyd yr ymwel Duw â ni â chospau ofnadwy yn y byd nesaf os na wnawn ei garu. Adgofia y rheswm hwn ni o'r hyn a wnaeth y gormeswr creulawn hwnw, Herod Fawr. Yr oedd Herod wedi neillduo llu o ddynion i gael eu cadw mewn caethiwed, a phan y byddai ef farw, i gael eu gosod i farwolaeth, fel y buasai i'r bobl gael eu harwain i feddwl mai am dano ef yn bersonol yr oedd y galar. Ond y gwir yw, nas gall neb garu Duw oblegyd ei farnedigaethau. Fel pe byddai tad yn cydio 'n sarug yn mraich ei blentyn gan ddweyd, Os na cheri di fi y mynud yma mi a'th fflangellaf hyd at fodfedd o'th fywyd.

Iechydwriaeth o ran ei hanfod yw cariad at Dduw yn ngholon dyn. Os na fydd i ni, os na allwn ni, ei garu, mae y cyfan ar ben. Mae John Stuart Mill, gyda'i onestrwydd arferol wedi dweyd: "Os yw Duw, fel ei desgrifir, yn ddigofus a dialgar, yn cospi ei blant mewn tân am dragwyddoldeb, nis caraf fi ddim o hono; ac os affern dân y rhaid i mi fyned am beidio ei garu, mi af yno."

Beth yw y gwir resymau dros garu Duw? (1.) Caria yw Ef yn ei natur ei hunan. Efe yw swm a sylwedd pob peth syd yn cariad. Nid yw cariad rhieni ond gwreichionen wan o gariad mar Duw. Os na cherir Duw, dengys hyn fod rhywbeth yn *wrong* mewn calonau dynol. Dichon i ddyn ddyoddef oddiwrth ddiffyg gwe.ediad moesol. Gall fod yno rywbeth o le neu ar goll yn y natur foesol, fel y mae dyn weithiau yn colli ei allu i archwaethu neu i glywed. Mae anwybodaeth o Dduw, mae camsynied yn nghylch cymmeriad Duw, yn achos o ddiffyg cariad. Pan fo tad dyn, fel eiddo Enoch Arden yn nghân Tennyson, draw yn mhell ar y mor, ac yntau erioed heb gael cyfle i'w adnabod yn y cnawd, bydd ei deimlad at ei dad yn ymddibynu ar y desgrifiadau fyddo wedi gael o hono gan ereill. Bydd dyn yn fynych wedi ei ddysgu yn gyfeiliornus am Dduw: y desgrifiadau o hono yn gelwyddog. Mae baich mawr o gyfrifoldeb yn gorwedd ar yr eglwysi hyny a gamddarluniant Dduw. Mae gwybodaeth o Dduw yn bossibl i chwi oll; gellwch ei adnabod os mynwch. Gall y syniad am dano hefyd yn y meddwl fod yn gywir, a'ch bod er hyny heb ei garu. Os felly, gweddiwch ar Dduw am nerth i'w garu. Os nad yw caredigrwydd a chariad Duw yn apelio atoch, mae rhywbeth yna allan o le. Ond fe all yr hwn a wnaeth y delyn ar y cyntaf ei thiwno hefyd pan fyddo wedi myned allan o gywair. (2.) Yr ydych wedi eich gwneyd yn wreiddiol i'w garu, fel mai dyma'r unig ffordd i chwi gyrhaedd dyben eich bodolaeth. Fel y tyfa y rhosyn o'i hedyn nes cyrhaedd ei berffeithrwydd fel rhosyn, felly dylai dyn dyfu, nid yn unig yn gorfforol o blentyndod i ddyndod, ond tyfu gan garu Duw. Yn llywodraeth Duw mae pob peth yn berffaith yn ol fel yr atebo ddyben ei fodolaeth. Ni chewch mo'ch gwir wynfyd ond yn nghariad Duw. (3.) Cerwch Dduw am mai dyma yw caru dyn mewn gwirionedd. Mae llawer o son y dyddiau hyn am "Grefydd Dynoliaeth" (*the Religion of Humanity*), yr hon a ddeil na wyddom ni ddim yn sicr am Dduw, ac mai ein doethineb yw cyfyngu ein llafur at welliantau ymarferol ac agos atom. Mae hyn oll yn dda, ac nid i'w gondemnio mor bell ag yr a, etto nid yw ond golwg ranol ac anmherffaith ar natur foesol dyn. Ymddengys hyn, os cadwn mewn cof (*a*) Mai yr hyn sydd yn gwneyd dynion yn werth eu caru yw y dwyfoldeb sydd ynddynt. (*b*) Mai yr unig gariad gwirioneddol at ddyn yw y cariad ato oblegyd ei ddwyfoldeb arosol. Nid yw caru dyn am ei gyfoeth neu ryw ddawn allanol arall yn deilwng o'r enw. Gerbron Duw, y gwir ddyn yw ei gymmeriad. Yr hwn sydd yn caru Duw ei hun yw yr unig un a all arwain ereill i'w garu, gan nas gall dyn ddysgu i ereill ond yr hyn mae yn wybod ei hun. Gan hyny dechreuwch garu Duw ynoch eich hunain. Cerwch Dduw, gan hyny, am mai cariad yw Efe ei hun, er cael gafael yn eich

ddynoliaeth eich hunan, ac mewn trefn i chwi allu caru eich cyd-ddynion.' Canlynwyd Mr. James, trwy nad oedd Cynnadledd wedi ei happwyntio i gymmeryd lle, gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, yr hwn a sylfaenodd ei bregeth ar y geiriau: "Er mwyn hyn y'm ganed, ac er mwyn hyn y daethum i'r byd, fel y tystiolaethwn i'r gwirionedd."

Dechreuwyd gwasanaeth y prydnawn gan Mr. Wm. Parry, diweddar fyfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin, a phregethwyd gan y Parch. W. Davies, Penrhiw, ar y testyn: "Gofynwch, a rhoddir i chwi, ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi:" a chanlynwyd ef gan y Parch. W. Thomas, Llwynrhydowen: "Oblegyd ein Duw ni sydd dân ysol." Mae cyfarfod y Nadolig i fod yn Llandyssul; y Parch. R. J. Jones, M.A., i bregethu y bregeth. Pwnc y Gynnadledd: Rhan gweinidogion a rhan lleygwyr (neu y sawl nad ydynt weinidogion) tuag at ddwyn yn mlaen achos Duw yn ein plith. Bydd i Mr. R. C. Jones, Llanbedr, i agor y pwnc trwy ddarllen papyr arno. W. T.

Hanesion.

ABERDAR. — Cynnaliwyd cylchwyl de flynyddol y brodyr Seisnig yn Highland Place, Hydref 3, pryd y cyfranogodd lluaws mawr o'r darpariaethau blasus. Yn yr hwyr cafwyd cyngherdd, ac y canwyd yn dra llwyddiannus y Cantata "Peace or War," gan roddi boddlonrwydd mawr i'r gwyddfodolion. Cadeiriwyd gan y gweinidog, Mr. George.

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH. — Cynnaliwyd y cyfarfodydd uchod, fel y mae yn arferol ar ddiwedd pob cynauaf yn y Llwyn a'r Bwlch, eleni ar y 4ydd o Hydref, pan y gweinyddwyd gan y gweinidog, yr hwn a bregethodd oddiar Matth. vi: 31, 33. Casglwyd at y claf-dy yn Nghaerfyrddin, yr hwn sydd yn awr yn hen gasgliad blynyddol ar yr adeg hon: Llwyn, £1 9s. 3c.; Bwlch, £1 8s.; Llandyssul, 18s. 4c.

DOWLAIS.—*Gwyl De.*—Cynnaliodd y cyfeillion Undodaidd yn y lle uchod eu gwyl de flynyddol ar y 7fed cyfisol, yn y Long Room, Canford Inn. Er fod yr hin yn hynod anffafriol, etto, mae yn hyfrydwch genym ddweyd fod yno gynnulliad da—dim llai nâ phump cant wedi cyfranogi o'r melus fwydydd oeddynt wedi eu parotoi ar eu cyfer. Yn yr hwyr, cafwyd cyngherdd bach cryno, difyr, ac adeiladol dros ben, pryd y gwasanaethwyd gan frodyr a chwiorydd o Dowlais ac Aberdar. Da genym weled Undodiaid Dowlais yn para mor addawol ac mor gryf yn eu penderfyniad o fyny lle o addoliad iddynt eu hunain, yr hwn a fwriadir adeiladu yn fuan. Maent yn deilwng o bob cefnogaeth a chynnorthwy.—G.

ONENFAWR, GER LLANDILO.—Dydd Sul, Medi 8fed, talodd ysgol Sabbothol y Gellionen, ei hymweliad blynyddol â'r lle hwn, trodd yr hin allan yn bob peth dymunol, a chafwyd gryn lawer o bleser a mwynhad yn yr amgylchiad. O herwydd i amgylchiadau luddias y Parch Mr. Evans, a Dewi Iago, i fod yn bresenol, cymmerwyd at y gorchwyl o lywyddu'r cyfarfod gan Mr. Lewis Hokpin, Cathylyd Farm, Cwmclydach, yr hyn a wnaeth yn fedrus a chanmoladwy iawn. Fe aeth yr ysgol trwy ei gwaith, mewn canu ac adrodd, &c., yn ardderchog, o'r ddau, yn well nag un o'r troion blaenorol. Feallai y byddai rhoddi rhestr o'r gwahanol ddarnau a ganwyd, ac a adroddwyd, yn nghyd ag enwau y personau fu yn cymmeryd rhan yn y gwaith, yn rhy faith i'w cyfleu yma, gan hyny, ymfoddloned y cyfeillion caredig am beidio enwi neb, ond er hyny, nis gallwn lai nâ chrybwyll, fod y brawd ffyddlon Lewis Thomas, yn teilyngu llawer o glod am ei ymdrech a'i lafur diflino gyda'r canu, ac hyderwn y bydd iddo gael hir ddyddiau i wasanaethu yr ysgol, yn y cyfeiriad hwn. Cyn terfynu'r cyfarfod, cafwyd anerchiad barddonol hynod o ddyddorol a phwrpasol gan Lewis Hopkin, a dilynwyd ef yn yr un cyfeiriad gan J. Davies, Llandybie. Y mae cynnulleidfa fechan yr Onenfawr yn dymuno diolch i chwi yn wresog am eich ymweliadau blynyddol, ac yn gobeithio y parhewch felly yn y dyfodol. —UN OEDD YNO.

Gohebiaeth.

YR ETHOLIAD CYFFREDINOL.

Mr. Gol.,—Syr, Mae yn farn gyffredinol fod yr Etholiad Cyffredinol yn ymyl, ac mae yn ffaith yn ol natur pethau nas gall fod yn mhell iawn. Yr wyf gan hyny am argymhell sylw difrifol eich darllenwyr at y mater, a gofyn a ganiatant i'r Weinyddiaeth gostus a ffol bresenol i ddal yr awenau ar ol yr etholiad nesaf? Mae treuliau y wlad yn cynnyddu yn aruthrol bob blwyddyn, a masnach y wlad yn ymddangos ar fin trengu; a ninau yn cael ein harwain o un perygl i berygl arall fel ag i beri fod yn anmhossibl cael yr ymddiried hwnw mewn cyssylltiad â'r farchnad arianol ag sydd yn anhebgorol angenrheidiol i gael gwelliant mewn masnach. Ni cheir ymddiried masnachol cyhyd ag y pery swn rhyfel, ac ni cheir terfyn ar swn rhyfel cyhyd ag y delir awenau y llywodraeth gan blaid ag mae bara a chaws nifer mor fawr o'r rhai ydynt yn ei chyfansoddi yn dybynu ar ryfel—gan blaid ag sydd gymmaint yn fwy hoff o *fuss*, a *show* a *sham* yn ei chyssylltiadau tramor nag o ddiwygiad a gwelliant gartref; yn fwy hoff o geisio propio i fyny drais a gormes yn Twrci na meindio ei busnes ei hunan gartref. Unwaith etto mae yn llawn bryd derchafu yr hen gadlef, *Peace, Retrenchment, Reform*! —Heddwch, Cynnildeb, Diwygiad.

Rhyddfrydwr.

Marwgofion.

Yr 22ain o Fawrth diweddaf yn 7 oed, o'r *Scarlatina*, bu farw Letticia, merch, ac unig blentyn David Daniel, Glanrhydydre, Llandyssul. Claddwyd hi y dydd Mawrth canlynol yn Llanwnen. Pregethodd y Parch. John Davies, Alltyplaca, yn y ty cyn cychwyn o'r angladd. Yr oedd yr un fechan yn ffraeth tu hwnt i'r cyffredin, ac yn blentyn gobeithiol iawn, ond machluddodd ei haul pan nad ydoedd ond prin wedi ymddangos uwchlaw'r terfyngylch.

"Ni wnaeth y teg flodeuyn hyn
A gadd mor syn ei symmud,
Ond prin iawn ddangos pa mor hardd,
Yw blodeu gardd y bywyd."

Awst 10fed, Evan Lewis, Parkyrhos, Pencarreg, yn 68 mlwydd oed. Yr oedd ein cyfaill ymadawedig yn un a gerid ac a berchid yn fawr gan ei gydnabod, ac yr oedd cylch ei adnabyddiaeth yn un tra eang. Nid ar gyfrif ei aur a'i arian y cerid ac y perchid Evan Lewis, ond ar gyfrif ei wybodaeth, ei bwyll, ei hynawsedd, a'i ddefnyddioldeb cyffredinol. Bu yn mhlith galwedigaethau ereill yn ysgolfeistr tra medrus am lawer o flynyddau, a chlywir yn aml ei hen ysgolheigion yn siarad am dano fel un hynod lwyddiannus i gyfranu gwybodaeth. Ond er pob dawn, nid oes heddyw gan ei gyfeillion a'i berthynasau ond ceisio sylweddoli y ffaith drist ei fod wedi marw, cofio ei ragoriaethau pan yn fyw, tra mae pob ffaeledd yn naturiol yn myned yn annghof. Bydded y weddw, y plant, a'r galarwyr oll gael nerth i fod yn gymmedrol ac yn obeithiol yn eu galar. Ar ddydd ei angladd, daeth torf luosog idd ei hebrwng i huno gyda'r tadau yn mynwent eglwys Llanwenog. Gweinyddwyd yn y ty ar yr achlysur gan y Parchn. N. Thomas, Aberduar; ac R. C. Jones, Llanbedr.

Awst 23, yn 91 oed, yn dra disymwth, Margaret, gweddw y diweddar John Evans, Abercerdinen, ger Llanwnen. Bu yr olaf farw 6 mlynedd yn ol yn 90 oed. Parhaodd eu bywyd priodasol am 67 o flynyddau, buont yn ol tystiolaeth y rhai a'u hadwaenent yn hynod heddychol a chyssurus dros yr holl amser. Ganed iddynt 13 o blant, ond nid oes yn bresenol ond pedwar o honynt yn fyw, sef un mab a thair merch. Bu iddynt 34 o wyrion o ba rai mae 11 wedi marw, ac 28 o orwyrion, o ba rai nid oes ond 22 yn fyw. Y dydd Mawrth canlynol ymgynnullodd torf fawr o berthynasau, cymmydogion, a chydnabod, a chladdwyd yr ymadawedig yn Capelygroes. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

"O! dyro glust i hanes fechan;
Yr hena' 'rioed o'r ddaear hon,
Bu fyw, bu farw, a thyna'r cyfan,
A'i oes yn gysgod oll o'i bron;

Yn Nuw pa faint, ac yn mha wedd? Cawn ddeall hyn tu draw i'r bedd."

IOLO.

Medi 3ydd, yn Llandilo, Mr. Thomas Evans, Pant Soar gynt, yn 70 mlwydd oed, gan adael gweddw unig i alaru ei cholled ar ei ol. Dydd Gwener canlynol, ymgasglodd torf lled fawr yn nghyd er talu y gymmwynas olaf iddo, a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys Henafol Llandilo. Yr oedd yr ymadawedig yn ddyn cyfrifol a pharchus, yn gyfeithydd yn y Llys Sirol (*County Court*), ac yn llanw cylch pwysig fel Cyfrifydd, &c., yn mhlith masnachwyr cyfrifol y dref. Yr oedd yn Undodwr o ran ei farn a'i olygiadau, ac yn dderbyniwr cysson o'r YMOFYNYDD. Yr oedd yn ddarllenwr ac yn feddyliwr o radd uchel, a chyrchai llawer ato am hyfforddiadau yn mhynciau dyrys y gyfraith, yn yr hon yr oedd ef yn dra hyddysg a chyfarwydd; a phrofodd ei hun fel ysgrifydd a gwneuthurwr medrus Ewyllysiau, o'r radd flaenaf. Dylasem grybwyll ei fod yn frawd i'r hybarch awenyddol fardd Dewi Dawel, Cwmdu, Talyllychau. Heddwch i'w lwch. —CYFAILL.

Medi 5ed, ar ol cystudd o ryw bum mis, yn 92 oed (1787—1878), yr hen batriarch teilwng David Williams, o'r Lleinau, Ram, ger Llanbedr-pont-Stephan. Nid dyn cyffredin oedd ein trancedig dad. Nid oedd yn gyfoethog yn mhethau da'r byd hwn, er iddo allu dwyn i fyny deulu lled luosog yn anrhydeddus ddigon, a'u porthi â digonedd o fara, a phob peth arall angenrheidiol a gweddus i'w sefyllfa hwy. Mae iddo lawer o blant ac wyrion a gorwyron yn ei oroesi, ac yn galaru ei symmudiad o'r byd. Ond er mai yn un o rodfeydd annghyhoedd bywyd y syrthiodd ei goelbren ef, yn saer maen wrth ei alwedigaeth, yr oedd gwir barch yn cael ei dalu iddo gan gyfoethog yn gystal a thlawd. Gwrandawai pawb yn astud ar farn a chynghor David Williams. Am ei fod ef mor wylaidd, heb byth geisio gwthio ei hun i sylw, chwilid ef allan, a rhoddid iddo flaenoriaeth a pharch gan ei gymmydogion o bob graddau ac enwad. Yr oedd yn un o'r bobl dda na chariant wyneb i ddynion, ond a ddywedai ei feddwl yn onest, etto hynod o ddidramgwydd. Yr oedd rhyw gymhwysder neillduol yn ei ymadroddion bob amser: pob gair yn ei le, a naws caredigrwydd yn rhedeg trwy y cwbl. O ddichell a hoced ni chlywsom iddo gael erioed ei gyhuddo. Perthynai ein hen dad i gorff parchus y Wesleyaid oddiar y flwyddyn 1808, pan ei derbyniwyd yn Llanwnen gan y diweddar barchedig Edward Jones, Mathafarn. Ac nid crefyddwr mewn enw yn unig oedd ef: yr oedd yn weithiwr egniol yn ngwinllan ei Arglwydd. Nid crefyddwr tywydd teg, ond trwy lawer o rwystrau a gwrthwynebiadau daliodd ef ati hyd y diwedd. Yr oedd yn wr cadarn yn yr Ysgrythyrau. Myfyriodd lawer ar air Duw. a darllenodd lawer ar bob math o lyfr y gallai ddod o hyd iddo i daflu goleuni ar y Beibl. Barn eang a goleuedig oedd yr eiddo ef. Nid dweyd ar ol hyd yn nod John Wesley ei hun a wnai heb edrych a oedd y pethau hyn felly, er i fod ganddo barch mawr i Wesley. Siaradodd a dadleuodd lawer—mewn ffordd deg a pharchus—yn nghylch materion duwinyddol. Yr oedd ef bob amser yn barod i wrando yn amyneddgar ar farnau gwahanol i'w farn ei hun. Bu cyfeillach fawr rhyngddo ag Undodiaid ei gymmydogaeth, ac nid oedd ef yn rhy ragfarnllyd, fel y mae llawer, i fyned i wrando ar eu pregethwyr, pan oedd cyfle yn caniatau, oblegyd yr oedd ef yn dra gofalus i beidio ag esgeuluso ei gydgynnulliad ei hun. Yr oedd ei wybodaeth gyfarwydd o'r Beibl a'r defnydd da yr oedd yn alluog ei wneyd o addysg y Llyfr Goreu, yn peri ei fod yn ymresymwr effeithiol, a phob amser yn cymmeryd yr olwg rydd ac eang ar bynciau'r ffydd. Gallai adrodd o'i gof y rhanau mwyaf adeiladol o'r Beibl. Hyd yn nod yn ei gystudd diweddaf adroddai bennodau cyfain a salmau meithion, a hyny yn aml gyda rhyw ddyddordeb neillduol, er syndod melus i'w hen gyfeillion a'r perthynasau a weinent arno. Dadleuodd lawer yn erbyn etholedigaeth ddiammodol ac athrawiaethau ereill uchel Galfiniaeth. Gwnaeth ei ol yn y cyfeiriad hwn ar ei ardal. Bu yn oleuni ac yn llewyrch i lawer meddwl ymofyngar. Pleser oedd hi ganddo i gyfarwyddo yr annghyfarwydd a hyfforddi yr anwybodus. Ymdrechodd eithaf ymdrech deg, a gadawodd ar ei ol enw i'w anwylu a'i gadw mewn hir a pharchus goffadwriaeth.

Sicrha y rhai a wyddant oreu i ni ei fod o ran ei farn nid yn unig yn Armin trwyadl, ond hefyd yn Ariad. Credai yn y cenedliad gwyrthiol. Etto nid oedd wedi gweled ei fod yn gwahaniaethu cymmaint oddiwrth y mwyaf rhydd a goleuedig o'r Wesleyaid fel y dylasai adael y cyfundeb. Teimlai ddyddordeb mawr yn llwyddiant y corff Wesleyaidd mewn gwybodaeth, rhyddid, eangder yspryd, duwioldeb, a phob gwir sancteiddrwydd. Yr oedd yn Rhyddfrydwr cysson a selog, ac yn mawr gashau pob

gorthrwm gwladol a chrefyddol, pob rhith o Doryaeth a thwyll-offeiriadaeth.

Claddwyd ef yn mynwent dywodog Capel Undodaidd Brondeifi, Llanbedr, pan y gweinyddodd y brodyr canlynol. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan y Parch. Joseph Jones (W.), a phregethwyd gan y Parch. R. C. Jones (U.), oddiwrth Salm cxix. 50, ar gais yr ymadawedig, ac ar ol i'r Parch. Jno. Thomas, Soar (I.), weddio wrth y drws, cychwynwyd tua'r gladdfa. Darllenwyd a gweddiwyd yn y Capel gan y Parch. John Davies, Alltyplaca. (U.), yr hwn hefyd a areithiodd yn doddedig ac effeithiol iawn ar lan y bedd, lle y gadawyd yr hen frawd anwyl i huno yn dawel, ac i orphwys oddiwrth lafur a lludded oes hir a helyntus hyd yr amser y gwelo y Tad goreu yn dda.

"Groesaw hyfryd hwyrol gudd
Wedi gwaith, hir daith y dydd ;
Melus i bererin blin
Wedi siwrne ydyw hun."

Syrthied rhan helaeth o yspryd David Williams ar ei berthynasau lluosog. Ni a deimlwn ei fod ef, er wedi marw, yn llefaru etto. Braidd y gallwn gredu ei fod wedi ein gadael. Boed nerth oddiwrth y Duw doeth a daionus i'r perthynasau galarus i dristau mewn gobaith yn ngwyneb symmudiad un mor gu ac anwyl ganddynt, a chaffom oll ymbarotoi i ganlyn ein hen dad pan ddelo y wys i'n galw adref.

W. Thomas.

O.Y.—Brodor o Lanbedr ydoedd. Mae ychydig ffeithiau ychwanegol wedi codi. Ein hen frawd oedd prif sefydlydd ysgol Sul Ty'n'rheol, Ram, yr hon a ymddadblygodd i fod yn eglwys lewyrchus—nid amgen na Brondeifi, Llanbedr. Yn etholiad cyffredinol, 1868, bu yn weithgar ac yn effeithiol iawn. Mewn cyfarfod yn y Ram Inn, ag oedd yn cael ei gynnal gan Mr. Sartoris, Mr. Johnes o Dolaucothi yn llywyddu, fe areithiodd yr hen wr dros yr achos rhyddfrydig nes synu Mr. Johnes yn ddirfawr. Cyn etholiad 1868, teithiodd ddegau o filldiroedd, a hyny cyn dydd, er sicrhau pleidleisiau dros Mr. Sartoris, ac E. M. Richards, a hyny pan yn 82 mlwydd oed. Y pryd hwnw teithiodd dros y mynydd—mynydd Llwm ac oer Pencarreg—dros bwyllgor Rhyddfrydig E. M. Richards, Ysw., i Lanfihangel-rhos-y-corn, ac yr oedd yn y fan lle'r oedd i fod pan oedd y teulu yn codi. Yr amser hwnw, teithiodd ugeiniau o filldiroedd i sicrhau pleidleisiau dros Mr. Richards a Mr. Sartoris. Yr oedd yn 82 oed y pryd hwnw. Yr oedd ei ddylanwad yn fawr ar yr etholwyr—nid dylanwad cyfoeth, urddas, na dim o'r fath—ond dydylanwad cymmeriad, meddwl, crefydd, gwleidiadaeth oleuedig. Pan siaradai ef gwrandawai pawb. Ar yr un pryd yr oedd mor ostyngedig fel na fynai gael ei weled na'i glywed gan neb.—W. T.

Medi 14, M. Davies, Pantydefaid, Cellan, yn 4 mlwydd oed. Pregethwyd ar ddydd yr angladd gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, a gosodwyd yr un fechan, ffraeth hon i orwedd yn dawel yn mynwent capel Caeronen. Bydded i ddagrau y galarwyr gael eu sychu gan obeithion efengyl.

Medi 23, yn Merthyr Road, Hirwaen, Thomas Morgan, gynt o Bryncethin, ger Penybont, yn 65 oed. Cymmerodd ei angladd le prydnawn dydd Iau canlynol, pryd y gweinyddodd W. James, Hen-dycwrdd, Aberdar, cyn cychwyn, a chladdwyd yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent Eglwys Penderyn. Un o ragorolion y ddaear oedd Thomas Morgan, yn ol tystiolaeth unllais ei gydnabod—un ag oedd iddo air da gan bawb a chan y gwirionedd ei hun. Yr oedd wedi arfer mynychu yr Hen-dy-cwrdd tra y gallai am flynyddau, ac yr oedd yn gynnorthwywr parod pob symudiad Undodaidd yn ei ardal.

Medi 23ain, yn 80 oed, Jane Davies, Pantteg, Penboyr. Ni chafodd gystudd hir ; a phan ddaeth y diwedd, bu farw yn dawel. Claddwyd hi yn mynwent Eglwys plwyf Penboyr. Yr oedd ein chwaer hon yr aelod henaf yn Mhenrhiw, lle bu yn ymgyrchu yn rheolaidd am o 40 i 50 mlynedd, heb byth adael ei lle yn wag tra caniataodd ei hiechyd. Teimlai ddyddordeb mawr yn yr achos ; yr oedd ei chalon yn y gwaith. Bydd ei symmudiad yn golled nid bychan i'r eglwys wan hon. Gwel y gymmydogaeth ei heisieu. Byddai bob amser yn barod i estyn llaw o gymhorth i bawb nad i ba enwad bynag y perthynent. Casäai ddichell a phob twyll ; carai fod yn wynebagored. Yn hytrach na chwilio beiau ei chyd-ddynion, siaradai yn benaf am eu rhinweddau. Boed i'w phriod a'i hunig ferch ydynt ar ol ymdawelu ; yn union deg byddant hwythau gyda hi yn y fro dawel. —G. E.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

W. E., Llwyn; T. D., Dolbwba; O. J., Abernant; S. H., Cribin; T. J., Maesygarn; J. J., Hendryd; E. T., Fadfa; R. Ll., Llandyssul; T. Ll. J., Hale; J. J., Aberaeron; D. Ll., Esgeronen; J. J., Quakers' Yard; J. J., Deri; W. D., Cwmavon; J. J., Hirwain road; D. E., Liverpool; J. E., Newcastle; L. W., Treherbert; W. Phillips, America; J. J., Tyrdref; T. J. P., Blaenddewi; S. J., Frowen; J. E., Nantgwyn; T. Ll., Porthcawl.

AT Y DOSPARTHWYR AC EREILL.

O herwydd amrywiaeth galwadau ar fy amser, ac anallu, mewn canlyniad, i gyflawnu ei dyledswyddau cystal ag y dymunwn, yr wyf wedi penderfynu rhoddi i fyny y swydd o Drysorydd. Derbynir y taliadau o hyn allan gan y Golygydd. Gyda dymuniad am bob llwyddiant i'r Ymofynydd,

Y gorphwysaf, yr eiddoch,

W. JAMES.

CYFRES O'R CYFRANIADAU AT ADGYWEIRIAD CAPEL BLAENGWRACH, 1878.

	£	s.	d.		£	s.	d.
Mr. Ch. James, Merthyr ..	2	0	0	Rev. William James, Aberdar.	0	5	0
„ Frank James	1	1	0	Mr. John Jones, Aberdar ...	0	5	0
„ R. Bedlington, Aberdar .	2	0	0	„ M. Morgans, Penderyn ...	0	2	6
„ Cristopher James Thomas, Bristol	2	2	0	„ Evan Lewis, Cefn Coed...	0	2	6
				Mrs. Stephens, Merthyr ...	0	5	0
„ Evan Thomas, Aberdar ...	1	1	0	Mr. Christmas Evans, Merthyr	0	5	0
„ Wm. Thomas, Trecynon...	1	1	0	„ Evan Evans, Merthyr ..	0	5	0
„ Daniel Davies, Cwmbach .	1	0	0	„ David Evans, Troedyrhiw	0	5	0
„ Thomas Gething, Aberdar	0	10	0	„ Saml. Harris, Penderyn...	0	1	0
„ Wm. Howells, Aberaman	0	10	0	„ Jenkin Evans, Blaenllecha	0	2	6
„ John Davies, Cwmgwrach	1	0	0	„ Thomas Lewis, Trecynon	0	5	0
„ Hy Jenkins, Cwmgwrach .	0	10	0	„ D. Williams, Pantysgawen	0	2	0

Y Parch. Titus Lloyd.—Drwg genym ddeall fod ein hen gyfaill anwyl o'r Nottais wedi gorphen ei yrfa ddaearol. Bu farw yn ddisymwth Hydref 23ain.

YR HELBUL YN LLWYNRHYDOWEN.

GALW I MEWN Y CYFRANIADAU.

Dymunir yn barchus ar bwy bynag sydd wedi bod mor garedig ag addaw cyfranu at y capel newydd, ac heb dalu i mewn eu haddewidion, i wneyd hyny yn ddioed i *Mr. John Jones, Solicitor, Llandyssul*, mewn *Cheques* neu *Post Office Orders*. Derbynir hefyd bob cyfraniadau ychwanegol yn ddiolchgar. Mae y capel yn prysur fyned rhagddo, a bydd yn fuan dan dô.

Wm. Thomas.

AT EIN DARLLENWYR.

Telerau.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—Rev. R. J. Jones, Clifton Street, Aberdare.

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Myrtle Cottage,
Aberdare.